**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

Mehefin 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

Mehefin 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

**Pwerau**
Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Mae gan y Pwyllgor bwerau statudol penodol hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan****
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

* Ymunodd Sandy Mewies AC â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar yr adroddiad hwn.

** Mae Julie Morgan AC yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond ni chymerodd ran yn y gwaith o benderfynu ar yr adroddiad hwn. Roedd ei gŵr yn Brif Weinidog ar yr adeg y prynwyd Gwesty River Lodge. Roedd o'r farn, felly, y gallai fod gwrthdaro buddiannau iddi hi wrth i'r ymchwiliad hwn gael ei gynnal.

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Gwyn R Price**
Llafur Cymru
Islwyn



**Lindsay Whittle**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

# Cynnwys


**Rhagair** ..... 5

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 8

**Y Cefndir** ..... 11

Pwy ydym ni? ..... 11

Beth yw Gwesty River Lodge, Llangollen? ..... 11

Pam y gwnaethon ni gynnal yr ymchwiliad hwn? ..... 11

Sut gwnaethom ni gynnal ein hymchwiliad? ..... 12

**1. Penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu hen Westy River Lodge yn 2007** ..... 15

Y penderfyniad cychwynnol i brynu'r eiddo ..... 15

Materion a ddylanwadodd ar y penderfyniad i brynu'r eiddo ..... 15

Prynu'r gwesty ..... 17

Y cyfrifoldeb dirprwyedig i brynu'r gwesty ..... 21

Cost prynu Gwesty River Lodge ..... 24

Meddiannu Gwesty River Lodge ..... 27

**2. Y penderfyniad i ymrwymo i brydles gyda Powys Fadog** ..... 31

Pryderon adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru ..... 31

Cyfathrebu rhwng gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru ..... 33

**3. Yr ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i gynigion amgen a gyflwynwyd gan Powys Fadog** ..... 35

**4. Y ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â gwrthdaro buddiannau** ..... 39

Y gwrthdaro buddiannau ..... 39

Rôl uwch swyddogion yn rheoli gwrthdaro buddiannau ..... 44

**5. Amseriad adolygiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, a'u canfyddiadau** ..... 53

Yr adolygiad cydymffurfio mewnol ..... 53

Yr adolygiad archwilio mewnol ..... 57

**6. Cysylltiadau Llywodraeth Cymru â phartïon allanol** ..... 60

Cyfathrebu â Powys Fadog ..... 60

Cyfathrebu â Karen Sinclair ..... 64
Cyfathrebu â Swyddfa Archwilio Cymru ..... 66
**7. Yr arfarniad opsiynau a safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â Gwesty River Lodge ..... 69**
Diffyg arfarniad opsiynau blaenorol ..... 70
Dyfodol Gwesty River Lodge ..... 71
**8. Newidiadau llywodraethu sydd wedi digwydd ers prynu River Lodge a llofnodi'r Cytundeb Prydlesu ..... 73**
Trefniadau Llywodraethu ..... 73
Newid diwylliannol ..... 75
**9. Gwybodaeth friffio i Weinidogion ..... 79**
Gwybodaeth friffio i Weinidogion mewn perthynas â Gwesty River Lodge ..... 79
Materion ehangach ynglŷn ag ansawdd gwybodaeth i Weinidogion 80
**Tystion ..... 83**
**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 85**

## Rhagair

Mae ein hymchwiliad i broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge wedi bod yn un o'r ymchwiliadau mwyaf dadlennol y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erioed wedi ymgymryd ag ef ac, ar yr un pryd, mae wedi peri gofid mawr inni.

Mae'r ffaith bod dros filiwn o bunnoedd o arian cyhoeddus wedi cael ei wastraffu o ganlyniad i'r gwahanol benderfyniadau a wnaed fel rhan o brosiect Gwesty River Lodge yn peri digon o bryder ynddi'i hun. Efallai fod hyn yn swnio'n fach yng nghyd-destun y gyllideb flynyddol o biliynau sydd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol ehangach mae'n hanfodol bod cyrff sector cyhoeddus yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian o bob ceiniog o arian cyhoeddus. At hynny, yr hyn sydd wedi ein gadael yn hynod o bryderus yw'r diffygion ehangach y mae'r ymchwiliad hwn wedi'u datgelu yn systemau a phrosesau Llywodraeth Cymru.

Pan fydd pobl yn meddwl am 'Lywodraeth Cymru', yn aml maent yn meddwl am Weinidogion a Gwleidyddion. Ond mae'r diffygion sy'n ein poeni ni yn yr ymchwiliad hwn yn bodoli ym 'mheirianwaith y gwasanaeth sifil', sydd i fod i gynorthwyo pobl o'r fath. Mae'r materion yn ymwneud â phrosiect Gwesty River Lodge yn pontio gwahanol Lywodraethau Cymru, ac anaml yr oedd y Gweinidogion amrywiol a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect hyd yn oed yn llwyr ymwybodol o'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud ar eu rhan.

Yn yr ymchwiliad hwn rydym yn aml wedi cael tystiolaeth aneglur a barn gymysg. Ond roedd un consensws clir, sef y byddem, o awgrymu mai un neu ddau o weision sifil unigol sy'n gyfrifol am y llanast yn gysylltiedig â phrosiect Gwesty River Lodge, yn llwyr anwybyddu diffygion dyfnach. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym:

> "This is a failure of civil servants and we should have expected better of our systems and processes. It is not one civil servant, but the processes that we had."[1]

[1] Y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Paragraff (Para) 164

Yn ein hymchwiliad, rydym wedi canolbwyntio ar y gwersi y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o brosiect Gwesty River Lodge wrth symud ymlaen. Felly, nid ydym wedi ceisio ymchwilio i'r prosesau disgyblu yr ymgymerwyd â nhw mewn perthynas ag aelodau staff unigol yn sgîl eu hymwneud â phrosiect Gwesty River Lodge, na'r canlyniadau disgyblu sy'n deillio o hynny. Mae'n fwy priodol i brosesau disgyblu o'r fath gael eu herio gan dribiwnlys cyflogaeth na chan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio adolygu llawer o'i threfniadau llywodraethu a'i phrosesau rheoli ers i'r penderfyniadau yn ymwneud â phrosiect Gwesty River Lodge gael eu gwneud yn wreiddiol. Rydym yn croesawu hynny.

Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi o hyd y byddai prosesau diwygiedig Llywodraeth Cymru o reidrwydd yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol pe bai materion tebyg i'r rhai yn gysylltiedig â Gwesty River Lodge yn codi eto. Yn wir, ar y cyd â'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu yn ein hymchwiliad ar yr un pryd i Reoli Grantiau, rydym wedi clywed:

- bod trosiant staff uchel o hyd yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru;
- nad yw Gweinidogion o bosibl yn cael gweld papurau eu rhagflaenwyr; ac
- ymddengys mai trefniadau trosglwyddo cyfyngedig sydd rhwng Gweinidogion.

Rydym yn bryderus iawn fod effaith gyfun y materion hyn yn gadael Llywodraeth Cymru gyda chof corfforaethol pysgodyn aur.

Edrychwn ymlaen at ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a'r argymhellion amrywiol yr ydym wedi'u gwneud. Croesawn hefyd y ffordd agored y rhoddodd swyddogion dystiolaeth i'n Pwyllgor ar sawl achlysur.

O ystyried y swmp o dystiolaeth a gyflwynwyd inni, cymerwyd y cam anarferol o osod dyddiad terfyn i gyflwyniadau gan dystion. Mae'r adroddiad hwn felly wedi'i seilio ar ein hystyriaeth ni o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd cyn y dyddiad terfyn, sef 8 Chwefror 2013.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl dystion a roddodd dystiolaeth inni – hebddynt, ni fyddem wedi gallu cwblhau ein hymchwiliad.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phrosesau i leihau'r risg bod rhuthr i wario arian cyn diwedd blwyddyn ariannol yn llesteirio ymdrechion i sicrhau gwerth am arian. Rhaid i'r sail resymegol dros unrhyw wariant ariannol, yn cynnwys gwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol, fod yn gadarn o ran sicrhau gwerth am arian. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r pwerau ariannol dirprwyedig y cytunwyd arnynt o fewn cylch gwaith bob Gweinidog, er mwyn tryloywder. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw Weinidog newydd yn cael ei friffio'n glir ynglŷn â'r cynlluniau dirprwyo sydd wedi cael eu sefydlu'n flaenorol yn ei adran. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arfer polisi cyson wrth gaffael tir neu eiddo gyda meddiant gwag. Rhaid i delerau meddiannaeth gael eu pennu cyn prynu'r eiddo. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, o dan amgylchiadau lle mae swyddogion cyfreithiol a swyddogion polisi yn anghytuno ynglŷn â phenderfyniad (yn cynnwys penderfyniadau sydd wedi cael eu dirprwyo gan Weinidog i swyddogion), y dylai'r Gweinidog gael gwybod am anghytuno o'r fath cyn y caiff unrhyw benderfyniad terfynol ei wneud. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i pholisïau Adnoddau Dynol o ran defnyddio cyfrifon e-bost i sicrhau ei bod mor glir â phosibl bob amser pa sefydliad y mae swyddog yn ei gynrychioli. (Tudalen 44)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phrosesau mewnol, fel bod uwch reolwyr, lle caiff pryderon eu mynegi am wrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas ag aelod

o'r staff, yn ceisio eglurhad penodol i ddweud pam y credir bod y gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol. Rydym o'r farn y dylai digonolrwydd yr eglurhad hwnnw gael ei brofi'n annibynnol wedyn, y tu hwnt i gadwyn rheolaeth linell yr aelod o staff. (Tudalen 47)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i pholisïau Adnoddau Dynol i sicrhau bod swyddogion yn cael eu hannog i beidio â gwasanaethu ar fyrddau allanol, oni bai fod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan eu Cyfarwyddwr yn dweud y credir y byddai er budd pennaf Llywodraeth Cymru iddynt wasanaethu felly. Rydym yn rhagweld y gallai fod eithriadau i bolisi o'r fath (i alluogi – er enghraifft – gwasanaethu ar gorff llywodraethu ysgol). (Tudalen 50)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu, yn flynyddol, a yw'n dal er budd pennaf Llywodraeth Cymru i aelodau o staff unigol barhau i wasanaethu ar fyrddau cwmnïau allanol. (Tudalen 50)

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cronfa ddata ganolog i storio gwybodaeth am fuddiannau cofrestredig y swyddogion i gyd, a bod camau'n cael eu cymryd i liniaru'r potensial o wrthdaro rhwng buddiannau. Dylai cronfa ddata o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd. (Tudalen 52)

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phrosesau i sicrhau bod y gwaith o gynhyrchu adroddiad mewnol yn dilyn trefn yr un mor gadarn â'r drefn a ddilynir wrth gynhyrchu adroddiad allanol. (Tudalen 57)

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i systemau i ymdrin â gohebiaeth Weinidogol, fel nad yw'r sawl y gwneir cwyn amdano na'i reolwr llinell yn ymateb i bryderon ynglŷn â gwrthdaro buddiannau (neu ymddygiad swyddog). (Tudalen 65)

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'n gyhoeddus sut yr ymdrinnir â gohebiaeth gan Aelodau Cynulliad, yn enwedig os yw Aelod Cynulliad wedi ysgrifennu gohebiaeth dro ar ôl tro am fater neilltuol. (Tudalen 65)

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i chonfensiwn, i alluogi Gweinidogion i gael gweld papurau a ystyriwyd gan eu rhagflaenwyr. (Tudalen 66)

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod gweision sifil Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gweinidogion yn cael eu briffio'n llawn wrth iddynt ddod i'w swydd ar bob agwedd o'u portffolio newydd, yn cynnwys gohebiaeth sydd ar y gweill a gohebiaeth nad yw wedi'i chwblhau. Rydym o'r farn y dylai hyn gynnwys ceisio adborth gan Weinidogion am effeithiolrwydd briffio o'r fath. (Tudalen 66)

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'n gyhoeddus y broses yr eir drwyddi i ddatgan bod ased yn un dros ben. (Tudalen 70)

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i systemau er mwyn galluogi unrhyw ddatblygiad prosiect neu bolisi tymor hir i gynnwys cyfleoedd ar gyfer arfarniadau opsiynau (i ystyried gwerth am arian), adolygiadau gan gymheiriaid ac ailasesu. (Tudalen 71)

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod adrannau Llywodraeth Cymru yn adolygu'u systemau i alluogi cynnal adolygiadau effeithiol gan gymheiriaid o'r holl drefniadau prynu perthnasol, gan ystyried y system yn yr adran Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth, (Tudalen 74)

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell, os bydd Llywodraeth Cymru yn uno â chorff arall yn y dyfodol, ei bod yn pennu pwrpas clir, ar sail tystiolaeth gadarn, i'r uno, ac y ceir law yn llaw â hynny gyfathrebu a chyfarwyddyd cyson i'r staff yn ystod y cyfnod o newid, a bod hynny'n unol â datganiadau cyhoeddus Gweinidogion. (Tudalen 78)

**Argymhelliad 20.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n gyhoeddus beth yw'r sail resymegol drosfwaol er pennu a yw papurau briffio yn Wybodaeth i Weinidogion (MB) ynteu'n Ffolderi Cyflwyno (SF). (Tudalen 80)

**Argymhelliad 21.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu pa mor effeithiol yw Uned Fusnes y Llywodraeth yn gwella ansawdd a chywirdeb papurau briffio drwy gynnal arolygon o farn Gweinidogion a chyflwyno adolygiadau rhyngadrannol gan gymheiriaid. (Tudalen 82)

# Y Cefndir

**Pwy ydym ni?**

1. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn bwyllgor trawsbleidiol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnwys 8 Aelod o'r 4 plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau craffu priodol a thrylwyr ar wariant Llywodraeth Cymru.

3. Yn arbennig, gallwn ystyried adroddiadau a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, a pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

4. Rydym yn cael cyngor a gwybodaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, rydym yn annibynnol ar y swyddfa honno hefyd, ac mae gennym ein tîm ein hunain o swyddogion.

**Beth yw Gwesty River Lodge, Llangollen?**

5. Dyma a ddywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

> "Sefydlwyd Gwesty River Lodge (River Lodge) ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ar safle o rwy ddwy erw ar Stryd y Felin, Llangollen. Mae'r eiddo yn cynnwys adeilad ar ffurf porthdy gyda thua 18 o ystafelloedd gwely i'w gosod, dwy ardal dderbyn, bwyty, ystafell gynadledda, tŷ hunangynhwysol tair ystafell wely a fflat hunangynhwysol pedair ystafell wely. Mae'r adeiladau a'r tir mewn lleoliad amlwg ar ochr Ddwyreiniol y dref. Ers i River Lodge roi'r gorau i fasnachu ryw ddeng mlynedd yn ôl, mae cyflwr yr adeiladau wedi gwaethygu fwyfwy."[2]

**Pam y gwnaethon ni gynnal yr ymchwiliad hwn?**

6. Cyhoeddwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar *'Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu*

---

[2] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Crynodeb, Para 1

*hen Westy River Lodge, Llangollen'* ar 14 Mehefin 2012. Deuai'r adroddiad i'r casgliad fod penderfyniadau Llywodraeth Cymru - yn 2007 i brynu hen Westy River Lodge am £1.6 miliwn ac yn 2009 i ymrwymo i gytundeb prydlesu gyda chorff o'r enw Powys Fadog - yn ddiffygiol ac nad oeddent yn cynrychioli gwerth da am arian. Yn wyneb hynny, a'r tebygolrwydd cynyddol na fyddai Powys Fadog yn gallu cyflawni amodau'r cytundeb prydlesu, roedd yr adroddiad o'r farn fod penderfyniad Llywodraeth Cymru yn 2010 i gynnal arfarniad o'r opsiynau er mwyn gwaredu'r eiddo yn ddoeth ac yn angenrheidiol.

7. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd y bu Llywodraeth Cymru yn araf i ymateb i bryderon allanol a mewnol ynglŷn ag uniondeb a gwerth am arian ei phenderfyniadau cynharach. Erbyn i'r camau hynny gael eu cymryd maes o law, roedd symiau sylweddol o arian cyhoeddus wedi cael eu gwario, a llawer o'r arian wedi cael ei wastraffu. Tanlinellai'r adroddiad fod Gwesty River Lodge, bum mlynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru ei brynu am £1.6 miliwn o arian cyhoeddus, yn dal yn wag a'i fod wedi dadfeilio. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i orfod talu'r costau sy'n gysylltiedig â bod yn berchennog, ac nid yw wedi cael unrhyw enillion ar ei buddsoddiad sylweddol yn yr eiddo.

8. Er nad oedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys unrhyw argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru, roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'i ganfyddiadau.

9. Penderfynasom felly gynnal ymchwiliad i'r materion yr oedd yr adroddiad yn eu codi, yn arbennig i ganfod pa wersi y gallai Llywodraeth Cymru eu dysgu o'r hyn a ddigwyddodd.

**Sut gwnaethom ni gynnal ein hymchwiliad?**

10. Yn ystod yr ymchwiliad, buom yn siarad ag amryw o bobl a fu â rhan ym Mhrosiect Gwesty River Lodge; yn cynnwys pobl a fu â buddiant neilltuol neu bersonol yn y Prosiect; neu sydd bellach yn gyfrifol am brosesau a systemau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chael sesiwn friffio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, siaradasom ag:

- Amanda Brewer, cyn-Swyddog gyda Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwr gyda Powys Fadog hefyd;[3]
- Andrew Davies, y cyn-Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau;
- Gareth Hall; cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth;
- Y Fonesig Gillian Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru Mai 2008 - Awst 2012;
- Ieuan Wyn Jones AC, cyn-Ddirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
- James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru;
- David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu cyfredol Llywodraeth Cymru;
- Karen Sinclair, cyn-Aelod Cynulliad dros Dde Clwyd;
- Pol Wong, Prif Weithredwr Powys Fadog;

11. Cawsom lawer o dystiolaeth ysgrifenedig hefyd oddi wrth dystion amrywiol, a gofynasom i Lywodraeth Cymru am ystod o wybodaeth ysgrifenedig.

12. Un mater y mae'r adroddiad hwn yn edrych arno yw'r ffordd y deliodd Llywodraeth Cymru â gwrthdaro buddiannau, felly mae'n bwysig ein bod ni'n dryloyw ynglŷn â'n buddiannau ni, a sut yr ydym wedi ceisio ymdrin â nhw yn yr ymchwiliad hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan yn ffurfiol fod rhaid inni yn unigol wneud datganiad pe bai Aelod, ei gymar neu unrhyw blant dibynnol o bosibl yn cael budd ariannol uniongyrchol drwy benderfyniad neilltuol ar y mater dan drafodaeth; a hefyd pe bai'r budd yn fwy na'r budd y byddai eraill yn gyffredinol y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt o bosibl yn ei gael.[4] Nid oedd angen unrhyw ddatganiadau o'r math hwn.

13. Y tu hwnt i'r gofyniad ffurfiol hwn, a chan gofio mai lle cymharol fach yw Cymru, roeddem yn unigol yn adnabod nifer o'r tystion yn ein

[3] Sefydliad yw Powys Fadog a ddatblygodd gynllun busnes i ddefnyddio Gwesty River Lodge, ac a lofnododd gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i brydlesu'r eiddo ym mis Mehefin 2009.
[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7

hymchwiliad (yn fwyaf amlwg Ieuan Wyn Jones AC, sy'n Aelod cyfredol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru). Yn y rhan fwyaf o achosion, roeddem o'r farn ei bod yn briodol dim ond cydnabod rhagadnabyddiaeth o'r fath, gan nad oeddem yn credu y byddai hynny ynddo'i hun yn dylanwadu ar ein gwrthrychedd. Er enghraifft, gwnaeth Mike Hedges AC ddatganiad ei fod yn adnabod Gareth Hall, cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth, mewn swydd flaenorol. Eglurodd Mike Hedges AC nad oedd yn adnabod Gareth Hall yn dda.

> "We served on Swansea College Board together with 18 other people for a short time. He was the regional director of the WDA when I was leader of Swansea Council."[5]

14. Fodd bynnag, er eglurder, dywedodd Mike Hedges AC y byddai wedi gadael y cyfarfod pe bai'r ddau un ai wedi gweithio gyda'i gilydd neu wedi bod yn ffrindiau.[6]

15. Ar egwyddor debyg, ni wnaeth un o'n Haelodau, Julie Morgan AC, unrhyw benderfyniadau ynglŷn â chynnwys yr adroddiad hwn. Y rheswm am hynny oedd mai ei gŵr (Rhodri Morgan) oedd y Prif Wediniog pan gafodd Gwesty River Lodge ei brynu. O'r herwydd, roedd Julie Morgan AC o'r farn fod potensial i wrthdaro buddiannau rhwng eich perthynas hi â'i gŵr a'i gwrthrychedd hi wrth ystyried y dystiolaeth, ac ni chymerodd unrhyw ran yn yr ymchwiliad.

16. Yn yr un modd, roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn flaenorol, ac yn briodol, wedi datgan diddordeb yng nghyd-destun ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru ac, o ganlyniad, tynnodd yn ôl o'r holl drafodion yn gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[5] Datganiad buddiannau, Mike Hedges AC
[6] Datganiad buddiannau, Mike Hedges AC

# 1. Penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu hen Westy River Lodge yn 2007

## Y penderfyniad cychwynnol i brynu'r eiddo

17. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru brynu hen Westy River Lodge, Llangollen, ym mis Mawrth 2007 am £1.6 miliwn, yn bwrpasol er mwyn hwyluso menter datblygu cymunedol Powys Fadog. Deallwn mai bwriad y fenter oedd creu canolfan leol ar gyfer iechyd, iachau a dysgu, a chanolbwynt ar gyfer gwahanol grwpiau yn y gymuned.

### *Materion a ddylanwadodd ar y penderfyniad i brynu'r eiddo*

18. Nodai tystiolaeth yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a chan Amanda Brewer nifer o ffactorau a oedd wedi gyrru'r penderfyniad gwreiddiol i brynu'r gwesty:

- cred bod angen gwario arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol;[7]
- awydd i 'dacluso' eiddo ar un o'r prif ffyrdd i mewn i Langollen; a
- buddion tybiedig menter datblygu cymunedol Powys Fadog;[8]

19. Dywedodd Amanda Brewer wrthym fod sawl rheswm am brynu'r safle:

> "one of them... was the requirement to spend budget in that financial year. Another reason was that the local authority had, for many years, drawn the WDA's attention to the fact that the property was an eyesore. It was one of those properties that was stuck, as the owner did not seem to be selling it. It was a typical land division acquisition. That is what land division did: took properties that were not moving, brought them forward into the system and sold them on. It was an eyesore and needed regeneration, so there was the regeneration requirement, as well. It was situated in the gateway to

[7] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.12
[8] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.19

> Llangollen. Obviously, there was also the community objective of Powys Fadog."[9]

20. Nodwn fod y pwysau hyn i wario arian wedi deillio yn ôl pob golwg o uwch reolwyr yn Llywodraeth Cymru, a dywedodd Amanda Brewer wrthym:

> "I was asked to look for potential projects because there was a lot of slippage in other parts of the former WDA. We were all asked to look for sites that might be suitable to come forward in that financial year on which we could spend our budget... You always try to spend your budget on what is actually in the business plan."[10]

21. Nid dyma'r tro cyntaf inni glywed fod penderfyniadau wedi cael eu gwthio ymlaen mewn sefydliad sector cyhoeddus oherwydd angen tybiedig i wario arian cyn diwedd blwyddyn ariannol. Rydym wedi clywed bod swyddogion yn pryderu weithiau, os na fyddant yn gwario'r arian sydd wedi'i ddyrannu iddynt, y gallai eu cyllideb gael ei thorri yn y dyfodol.

22. Rydym yn credu y gallai'r rhuthr hwn i wario arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol fod wedi llesteirio ymdrechion i sicrhau gwerth am arian yn yr achos hwn. Yn arbennig, mae'n ymddangos bod yr asesiad risg a'r penderfyniad ffurfiol i brynu'r gwesty wedi digwydd i raddau helaeth mewn cyfnod o dri diwrnod.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phrosesau i leihau'r risg bod rhuthr i wario arian cyn diwedd blwyddyn ariannol yn llesteirio ymdrechion i sicrhau gwerth am arian. Rhaid i'r sail resymegol dros unrhyw wariant ariannol, yn cynnwys gwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol, fod yn gadarn o ran sicrhau gwerth am arian.**

23. Cyn prynu'r gwesty, nid oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gyfrifoldeb ffurfiol am ei gyflwr. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'n tystion fod angen 'tacluso' Gwesty River Lodge, er mwyn gwella'r ffordd i mewn i Langollen yn weledol. Yn wir, dywedodd Karen Sinclair, cyn-Aelod Cynulliad dros Langollen:

[9] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 307
[10] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 243

> "initially, I was pleased that WAG had purchased the building, because the site was a real eyesore on one of the main roads into Llangollen. So, anything that was going to tidy it up, I was more than happy with."[11]

24. Er ein bod yn cydnabod bod pryderon amgylcheddol yn bwysig, ni chredwn y dylai hynny fod yn brif sbardun i Lywodraeth Cymru brynu'r eiddo. Credwn fod amryw o fecanweithiau eraill y mae modd eu defnyddio i wella delwedd eiddo sy'n dadfeilio, heb i gorff cyhoeddus ei brynu'n gyfan gwbl. Gallai mecanweithiau eraill hyn fod wedi cynnig gwell gwerth am arian.

**Prynu'r gwesty**

25. Dywed Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd ond un weledigaeth er mwyn mynd i'r afael â'r materion gwahanol hyn: prynu'r safle a'i drosglwyddo i Powys Fadog. Yr unig ddefnydd amgen i'r safle oedd y posibilrwydd o sefydlu datblygiad preswyl.[12]

26. Yn ôl a ddeallai Karen Sinclair hefyd nid oedd unrhyw ddefnyddiau amgen i'r safle wedi cael eu hystyried, a dywedodd:

> "I know that we buy places—or the WDA certainly used to buy places—in order to try to push them for work and so on, but it just seemed very odd to me that it was being purchased with a particular person in mind. There had been no review of what the building could be used for."[13]

27. Cytunwn â chanfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n ymddangos bod amrywiaeth o opsiynau o ran defnyddio'r safle wedi cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cael y gwerth gorau am arian cyhoeddus. Rydym yn hynod siomedig am hynny, ac yn ei ystyried yn fethiant sylfaenol yn y prosiect.

28. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth yn cwestiynu pa un a allai prynu'r gwesty i gynorthwyo menter datblygu cymunedol Powys Fadog fod wedi cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus.

29. Roedd Powys Fadog o'r farn ei fod yn cynrychioli gwerth am arian, a dywedodd Pol Wong fod Powys Fadog wedi darparu cynllun busnes

---

[11] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 93
[12] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.6
[13] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 157

wedi'i gostio i Lywodraeth Cymru yn cwmpasu'r defnydd yr oedd yn ei fwriadu i'r eiddo. Nododd Pol Wong hefyd fod Powys Fadog yn wreiddiol yn bwriadu cyllido'r prosiect drwy fenthyciadau. Dywedodd fod y cynllun busnes yn ddigon cadarn i Cyllid Cymru gymeradwyo (mewn egwyddor) nifer o fenthyciadau, nes i gyfanswm y benthyciad gofynnol fynd yn fwy na £500, 000.[14] Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Pol Wong wrthym hefyd ei fod, rhwng 2007 a 2008, wedi cael cynnig:

> "a loan in principle from Finance Wales and, of course, it did due diligence on us at the time. The idea was that we aimed to pay back that loan from our business enterprises… we were originally asking for a £150,000 loan."[15]

30. Yn yr un modd, dywedodd Amanda Brewer fod cynllun busnes Powys Fadog wedi pasio gofynion diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru nifer o weithiau. Dywedodd hefyd fod cynllun busnes Powys Fadog yn ddigon credadwy i fodloni Bwrdd Tai Clwyd Alyn a hynny yn dilyn gwaith craffu dwys.[16]

31. Dywedodd Amanda Brewer wrthym hefyd fod prydlesu'r eiddo i Powys Fadog yn ffordd o wrthbwyso'r risg fasnachol a oedd ynghlwm wrth wireddu potensial ailddatblygu posibl ar rannau eraill o'r eiddo. Dywedodd nad oedd sefyllfa ariannol gymharol wan Powys Fadog pan brynwyd yr eiddo gyntaf yn rhywbeth anarferol ymysg mentrau cymdeithasol.[17]

32. Fodd bynnag, nid oedd tystion eraill yn credu bod cefnogi menter datblygu cymunedol Powys Fadog yn cynrychioli gwerth am arian. Nododd Karen Sinclair fod pryderon wedi cael eu mynegi wrthi hi y byddai agweddau o'r fenter yn dyblygu gwasanaethau a oedd eisoes yn cael eu darparu gan fusnesau yn lleol. Manylodd:

---

[14] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 26 a 39
[15] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Tachwedd 2012, Para 18 a 21
[16] Amanda Brewer, Sylwadau ar gyfarfod y Pwyllgor 23 Hydref 2012, Para 196. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod y lefel o risg i Gymdeithas Tai Clwyd Alun yn wahanol iawn i'r risg i Lywodraeth Cymru. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod nad oedd y cynnig yn cynrychioli risg sylweddol i'r gymdeithas. (Para 3.14)
[17] Amanda Brewer, Sylwadau ar gyfarfod y Pwyllgor 8 Hydref 2012, Para 71

> "the chair of the chamber of trade raised worries with me about the cafe and so on. The chamber of trade had been worried about direct competition with existing traders."[18]

33. Mewn tystiolaeth lafar, roedd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar y pryd hefyd yn feirniadol o'r penderfyniad i gefnogi'r fenter. Dywedodd:

> "this organisation did not have a track record, it did not have the management, which it recognised itself, nor did it have the ability to generate money."[19]

34. Yn yr un modd, dywedodd Pennaeth Llywodraethu Llywodraeth Cymru:

> "we were dealing with a new company that had no track record, there was no capital, insufficient revenue and the scheme itself was untested. So, there was a whole package of question marks around the original scheme in terms of the acquisition and then the disposal of the property."[20]

35. Nodai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd nad oedd Powys Fadog wedi masnachu fel busnes gweithredol, nad oedd ganddo unrhyw gyfalaf,[21] a bod y fenter datblygu cymunedol yn dibynnu'n drwm ar un unigolyn.

36. Cytunwn â chasgliad Swyddfa Archwilio Cymru fod cefnogi'r fenter datblygu cymunedol yn golygu nifer sylweddol o risgiau. Er enghraifft, pe bai Mr Pol Wong wedi cael ei gymryd yn ddifrifol wael, gallai cynllun y fenter fod wedi'i beryglu, gan ei fod yn dibynnu ar ei arbenigedd ef. Rhaid i unrhyw brosiect sy'n dibynnu'n drwm ar un unigolyn gael ei ystyried yn un sy'n cario risg. Yn yr un modd, nododd un o'n Haelodau nad oedd fawr o dystiolaeth bendant i gefnogi'r cynigion yng nghynllun busnes Powys Fadog, a dywedodd:

> "It could not make any money when it was being run as a hotel and a place where martial arts schemes were being run. How could anyone have ever thought that you could make money by

---

[18] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 95
[19] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 150
[20] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 18
[21] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.9

> just running martial arts schemes when the property was not making money before, which is why it was made available?"[22]

37. Credwn fod risg sylweddol na fyddai cefnogi menter datblygu cymunedol Powys Fadog – drwy drosglwyddo'r eiddo i Powys Fadog a chefnogi'r sefydliad gyda grantiau sector cyhoeddus – wedi cynrychioli gwerth am arian.

38. Ond rydym yn cydnabod hefyd fod llywodraethau a sefydliadau da yn cymryd risg. Nodwn hefyd fod potensial yn wreiddiol i Lywodraeth Cymru ddatblygu darn o'r tir a brynwyd at ddibenion preswyl a'i werthu am elw, a allai fod wedi gostwng lefel y risg.

39. Cytunwn hefyd â sylw Amanda Brewer fod llawer o fentrau cymdeithasol mewn sefyllfa ariannol gymharol wan. Ni fyddem am annog Llywodraeth Cymru i beidio â buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol sydd â chynlluniau busnes cadarn.

40. Fodd bynnag, mae'r lefel o risg dan sylw yn effeithio ar faint o gefnogaeth y gellir cyfiawnhau ei gynnig. Tybiwn mai'r rhesymeg hon efallai a achosodd i Cyllid Cymru dderbyn ceisiadau Powys Fadog am fenthyciadau llai mewn egwyddor, ond ystyried benthyciad o £500,000 yn ormod o risg.

41. Nid yw'n ymddangos i ni fod modd cyfiawnhau maint cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn yr achos hyn, o'i gyfuno â lefel y risg dan sylw.

42. Credwn fod rheolaeth ariannol effeithiol yn golygu nid ymwrthod â risg, ond gwneud penderfyniadau gyda dealltwriaeth glir o'r risgiau posibl yn yr achos dan sylw. Mae llywodraethu da yn darparu strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau felly, i sicrhau bod risgiau'n cael eu cyfrifo'n briodol. Yn anochel, ni fydd rhai o'r risgiau hyn yn dwyn ffrwyth fel y dymunwyd, ond os ydynt wedi bod yn destun trefniadau llywodraethu priodol, mae'n dal yn bosibl cyfiawnhau'n gadarn y penderfyniadau a arweiniodd at gymryd risg.

43. Yn yr achos hwn, mae'n ymddangos i ni fod yr asesu risg yn rhy gyfyng. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gytundeb gyda Powys Fadog pan brynwyd yr eiddo, a'i bod wedi penderfynu gohirio unrhyw wiriadau diwydrwydd dyladwy o hyfywedd Powys Fadog nes byddai mewn sefyllfa i gytuno ar

[22] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 196

brydles gyda'r cwmni. Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r ffaith nad oedd gan Powys Fadog unrhyw gyfalaf ei hun i ariannu'r gwaith adnewyddu hanfodol, eto penderfynodd Llywodraeth Cymru brynu gan ddeall hynny, a heb fantais gwiriadau diwydrwydd dyladwy nac asesiad risg llawn ac annibynnol o'r prosiect.[23]

44. Dywed yr adroddiad i'r unig asesiad risg a wnaed cyn prynu'r gwesty gael ei gwblhau gan Amanda Brewer, a oedd eisoes wedi hysbysu'i rheolwyr ac adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru o'i buddiant hi yn Powys Fadog. Yn ein barn ni, roedd ymwneud Amanda Brewer â Powys Fadog yn creu gwrthdaro buddiannau pan oedd yn cynnal asesiad risg. Credwn y dylai'r asesiad risg fod wedi cynnwys ystyried hyfywedd cynnig Powys Fadog.

45. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn disgrifio'r asesiad risg fel un rhannol, gan nad oedd yn adlewyrchu ffactorau arwyddocaol, megis ansicrwydd ynglŷn ag ariannu, dibyniaeth ar un unigolyn, a diffyg record fasnachu'r cwmni.[24] Cytunwn â'r dadansoddiad hwn.

46. Yn fwy na hynny, wrth ddirprwyo'r gwaith o gwblhau asesiad risg i swyddog a oedd â buddiant hysbys yn y sefydliad yr oedd yn ei asesu, ac a oedd yn ymwneud ag ef, ni chredwn fod Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi ei hun mewn sefyllfa i asesu'n gywir y risgiau posibl a oedd ynghlwm wrth brynu'r eiddo.

47. Y diffyg asesu risg cadarn hwn yw'r hyn sy'n ein pryderu'n arbennig. Mae'n hanfodol, wrth symud ymlaen, fod Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ei hun mewn sefyllfa i asesu'r risgiau sy'n gynwysedig yn y penderfyniadau a wna. Fel arall bydd yn gweithredu yn y tywyllwch, a bydd llwyddiant ei phenderfyniadau yn dibynnu mwy ar lwc na chrebwyll.

### Y cyfrifoldeb dirprwyedig i brynu'r gwesty

48. Nid y Gweinidogion sy'n gwneud pob penderfyniad a gymerir gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, weithiau caiff cyfrifoldeb ei ddirprwyo i swyddogion i wneud mathau neilltuol o benderfyniadau. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym:

---

[23] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.8
[24] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.6 i 1.8

> "Delegations are formal pieces of permission that are delegated from Welsh Ministers to officials."[25]

49. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod gan Gyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo prosiectau cyfalaf gwerth hyd at £4 miliwn ar yr adeg y prynwyd Gwesty River Lodge.[26] Rhoddodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol gymeradwyaeth i ddefnyddio arian i brynu'r gwesty dri diwrnod ar ôl i Amanda Brewer gyflwyno'r cynnig i brynu Gwesty River Lodge i'w adolygu a'i gymeradwyo.[27]

50. Roedd cyn-Weinidogion yn Llywodraeth Cymru (Andrew Davies ac Ieuan Wyn Jones AC) yn cefnogi'r egwyddor o ddirprwyo cyfrifoldebau i swyddogion y llywodraeth. Dywedodd Ieuan Wyn Jones AC:

> "mewn unrhyw adran o Lywodraeth, y realiti yw bod llawer iawn o benderfyniadau yn cael eu dirprwyo i swyddogion... Dim ond penderfyniadau eithaf mawr oedd yn mynd i ddwylo Gweinidogion. Oni bai eich bod yn cytuno ar ryw fath o system o ddirprwyo, byddai system y Llywodraeth, fel maent yn ei ddweud yn Saesneg, yn *'grind to a halt'*."[28]

51. Yn yr un modd, dyma a ddywedodd Andrew Davies, yn siarad fel y cyn-Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau:

> "I, certainly, was not of the view that I wanted to be making all decisions as a Minister, either financial or in other ways, because I do not think that that is the best way for organisations to work, either in the public or the private sector… certainly that was my clear intention as a Minister—I wanted my department and the Government to be lean and to be able to be responsive to the needs of companies, because we were working in a very competitive, global market. If Wales is seen as somehow rigid, unresponsive and not open for business, then that will not do Wales any good. However, as ever, it is about trying to get the balance right."[29]

---

[25] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 130
[26] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.20
[27] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.21
[28] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 179
[29] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 266

52. Pan ofynnwyd sut y câi'r dirprwyo ar gyfrifoldebau Gweinidogion ei bennu, dywedodd Pennaeth Llywodraethu Llywodraeth Cymru wrthym:

> "at the beginning of the year, the Permanent Secretary writes formally to each of the accounting officers setting out their budgets, their framework of delegation and the standards, with reference to the guidance that we expect our accounting officers to apply to this, and telling them that the first thing they will want to do is agree with Ministers what Ministers will want to decide for themselves and what they are prepared for officials to decide."[30]

53. Fodd bynnag, dywedodd y ddau gyn Weinidog y siaradasom ni â nhw nad oeddent yn ymwybodol o'r holl bwerau dirprwyedig a oedd wedi'u sefydlu cyn eu cyfnod nhw yn y swydd. Yn hytrach, dywedodd Andrew Davies wrthym:

> "a large degree of the processes had been inherited from the then WDA, and the evidence was that there had not been any significant changes."[31]

54. Yn yr un modd, dywedodd Ieuan Wyn Jones AC wrthym:

> "roedd y penderfyniad o ran beth i'w ddirprwyo wedi'i wneud cyn i mi ddod yn Weinidog, ac roedd swyddogion yn dilyn yr hyn a oedd yn digwydd o dan y Gweinidog blaenorol."[32]

55. Rydym yn cefnogi'r egwyddor o ddirprwyo priodol, ac yn cytuno â sylwadau'r cyn-Weinidogion fod hynny'n arf gwerthfawr i alluogi Llywodraethau effeithiol i weithredu.

56. Fodd bynnag, roeddem yn synnu ac yn pryderu bod y ddau gyn Weinidog yn dweud yn ôl pob golwg nad oeddent yn ymwybodol o'r pwerau dirprwyedig a oedd wedi'u sefydlu cyn eu cyfnod nhw yn eu swydd. Roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r diffyg tryloywder ymddangosiadol hwn o ran beth yr oedd swyddogion wedi cael eu hawdurdodi i'w wneud yn flaenorol. Os nad yw Gweinidogion yn ymwybodol o'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo'n flaenorol, ni fydd ganddynt y wybodaeth i adolygu a diwygio'r pwerau dirprwyedig y

---

[30] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 78
[31] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 275
[32] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 177

maent wedi'u hetifeddu. Mae anwybodaeth o bwerau sydd wedi'u dirprwyo'n flaenorol yn eu rhoi y tu hwnt i reolaeth Gweinidog newydd i bob diben.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhestr o'r pwerau ariannol dirprwyedig y cytunwyd arnynt o fewn cylch gwaith bob Gweinidog, er mwyn tryloywder.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw Weinidog newydd yn cael ei friffio'n glir ynglŷn â'r cynlluniau dirprwyo sydd wedi cael eu sefydlu'n flaenorol yn ei adran.**

**Cost prynu Gwesty River Lodge**

57. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i Lywodraeth Cymru gytuno ar bris prynu o £1.6 miliwn cyn i brisiad o'r eiddo gael ei sefydlu'n annibynnol gan y Prisiwr Dosbarth. Cadarnhaodd y Prisiwr Dosbarth wedi hynny fod y pris prynu yn adlewyrchiad teg o werth y safle ar y farchnad, er bod rhyw £1 miliwn o'r prisiad yn deillio o'r potensial ar gyfer datblygiad preswyl yn y dyfodol.[33] Nodai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd "nad oedd y gwerthwr wedi llwyddo i werthu'r eiddo ar y farchnad agored"[34] yn flaenorol. Dywedai'r adroddiad fod yr £1.6 miliwn a dalwyd gan Lywodraeth Cymru i'r gwerthwr "yn sylweddol uwch na'r pris o £120,000... a dalodd y gwerthwr i brynu'r eiddo ym mis Hydref 2000."[35]

58. Roeddem wedi'n syfrdanu gan faint y cynnydd ym mhris yr eiddo o £120, 000 i £1.6 miliwn rhwng 2000 a 2007. Roeddem yn cydnabod bod prisiadau wedi cynyddu dros y cyfnod hwn, ond roeddem yn synnu eu bod wedi cynyddu i'r graddau hyn, yn enwedig gan nad oedd y gwerthwr yn gallu gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored. Nodwn fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud i'r Prisiwr Dosbarth ddatgan bod £1.6 miliwn yn adlewyrchiad teg o werth River Lodge ar y farchnad, o ystyried potensial y tir ar gyfer datblygiad preswyl.[36] Fodd

---

[33] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.3 ac 1.4
[34] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.2
[35] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.2
[36] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.5. Dylid nodi na fwriwyd ymlaen â'r datblygiad preswyl, er ei fod yn rhan o'r prisiad (adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru Para 2.2)

bynnag, nodwn i'r prisiad gael ei wneud ar ôl cytuno ar bris gyda'r gwerthwr. Nodwn hefyd i'r prisiad gael ei seilio ar y potensial i greu datblygiad preswyl ar y safle, er gwaethaf y ffaith:

- nad oedd cyfeiriad at hyn yn nefnydd arfaethedig Powys Fadog o'r eiddo;
- nad oedd caniatâd cynllunio i ddatblygiad preswyl ar y safle yn bodoli yn ôl pob golwg; ac
- nad ymchwiliwyd wedi hynny i ba un a fyddai dichon cael caniatâd cynllunio i ddatblygiad preswyl.

59. Mae'n werth nodi bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn datgan nad oedd prisiad y Prisiwr Dosbarth yn cynrychioli prisiad ffurfiol yn unol â gofynion y Llyfr Coch.[37] Cawsom dystiolaeth a oedd yn croes-ddweud ei gilydd pa un a oedd gweithdrefnau Llywodraeth Cymru ar y pryd yn pennu bod rhaid cael prisiad ffurfiol (yn unol â gofynion y Llyfr Coch). Er enghraifft, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth wrthym:

> "I was concerned on a number of fronts about the professionalism of that valuation. It was not a valuation. The district valuer said that he would send them a red-book valuation. Our rules said that you needed a formal red-book valuation."[38]

60. Gofynasom i Amanda Brewer a fu prisiad llyfr coch o'r eiddo, ac a oedd y prisiad yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru ar y pryd. Mewn ymateb, dywedodd mai dyma oedd y gofynion ar yr adeg y prynwyd yr eiddo:

> "it was a requirement to get a written valuation. It was not a requirement to get a formal, red-book valuation. What would normally happen in those circumstances is that you would discuss it with the valuer beforehand; before you actually went out and met a potential vendor, you would speak to the district valuer and give him all the information, and he would tell you what sort of value the property had, and then confirm that in writing as and when it was required. In this case, yes, the piece

---

[37] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.4
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 399

of paper should have been there before the formal approval went in. It was not, but three people approved that transaction. It was not me who made any decisions, and I want to reiterate that."[39]

61. Nodwn i adolygiad cydymffurfio Llywodraeth Cymru ganfod nad oedd unrhyw dystiolaeth o amhriodoldeb gwirioneddol[40] gan Amanda Brewer ym mhryniant yr eiddo. Ar y mater hwn, dywedodd Adolygiad Cydymffurfio Mewnol Llywodraeth Cymru:

> "In accordance with DE&T Guidelines on the acquisition and disposal of the property, as they relate to transactions by private treaty, the property values at each stage have been verified by independent valuations which were provided by the District Valuer. The valuation for the acquisition was not obtained prior to the formal approval of the acquisition but it was provided prior to legal completion of the purchase. In my view this is a minor breach which does not undermine the valuation as evidence of market value." [41]

62. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ac yn synnu na sefydlwyd gwerthusiad annibynnol ysgrifenedig o'r eiddo cyn cytuno ar bris gyda'r gwerthwr. O'n safbwynt ni, os ydych yn mynd i brisio gwerth eiddo yn annibynnol, mae'n ymddangos yn groes i resymeg gwneud hynny ar ôl – yn hytrach na chyn – cytuno ar bris.

63. Er ein bod yn cydnabod bod £1.6 miliwn wedi cael ei brisio'n annibynnol, ni chredwn fod prynu'r gwesty, i'r pwrpas a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynrychioli gwerth am arian.[42] Credwn nad yw prisiad cywir o werth tir yn awtomatig yn golygu gwerth am arian. I ddefnyddio cyfatebiaeth eithafol, pe bai llywodraeth yn prynu Tŵr Eiffel, efallai y gwnâi hynny am bris sy'n adlewyrchu'i werth yn gywir. Fodd bynnag, pe bai'n bwriadu defnyddio'r eiddo hwnnw fel safle

---

[39] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 191 ac 192

[40] Llywodraeth Cymru, Adolygiad Cydymffurfio, Canfyddiadau Cryno Td2. Cyflwynwyd fel tystiolaeth ysgrifenedig gan Amanda Brewer. Gwneir y pwynt hwn hefyd ym Mhara 1.16 o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

[41] Llywodraeth Cymru, Adolygiad Cydymffurfio, Canfyddiadau Cryno Td2. Cyflwynwyd fel tystiolaeth ysgrifenedig gan Amanda Brewer.

[42] Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn yr un modd i Lywodraeth Cymru dalu mwy am yr eiddo na'i werth ar gyfer y defnydd y bwriadai ei wneud ohono. Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.1-1.5

tirlenwi, byddai prynu'r safle yn cynrychioli gwerth eithriadol o wael am arian.

64. Nododd y Cyfarwyddwr Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fod Llywodraethau yn wir weithiau yn gwario mwy ar eiddo na'i werth (o ystyried y defnydd y bwriedir ei wneud o eiddo neilltuol). Dywedodd:

> "if a piece of land has a certain value for residential or maybe retail use and you want to buy it, you have to pay the cost for whichever possible use has the highest value, even if you decide to use it for something else."[43]

65. Yn yr achos hwn, rydym o'r farn i Lywodraeth Cymru dalu mwy yn sylweddol am yr eiddo na'i werth o ran y defnydd a oedd wedi'i fwriadu iddo. Credwn, felly, fod y pryniant yn cynrychioli gwerth gwael am arian. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru fel corff o'r farn fod cefnogi menter Powys Fadog yn werthfawr er mwyn gwireddu'i hamcanion polisi, gallai fod wedi ystyried opsiynau eraill i gefnogi'r prosiect (er enghraifft, awgrymu y gellid ei leoli yn rhywle arall). Croesawn y ffaith fod Adolygiad Cydymffurfio Llywodraeth Cymru yn ôl pob golwg wedi dod i gasgliad tebyg ar y mater hwn, gan ddweud:

> "The net cost of the project relative to the outcomes and benefits outlined in the project appraisal appears to be exceptionally high."[44]

**Meddiannu Gwesty River Lodge**

66. Er i Lywodraeth Cymru gaffael Gwesty River Lodge gyda meddiant gwag, caniatawyd i Mr Pol Wong a pherson arall aros ynddo. Cawsom dystiolaeth gymysg pa un a oedd hwn yn benderfyniad effeithiol ai peidio.

67. Dywedodd Amanda Brewer, er nad oedd ganddi unrhyw ran mewn materion rheoli yn ymwneud â'r gwesty, mai ei dealltwriaeth hi oedd mai'r rheswm dros ganiatáu i ddau denant fyw mewn uned breswyl oedd y byddai hynny'n ei gwneud yn llai tebygol y ceid torri i mewn a fandaliaeth. Dywedodd:

[43] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 49
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig Amanda Brewer, tudalen 30.

> "one residence was occupied on an Assured Shorthold Tenancy and the other, occupied by Pol Wong, on a tenancy at will. The lawyer's advice was to issue Mr Wong with a simple licence to occupy in the form of a letter on completion to avoid any problems with his occupation in the future. Neither tenant had security of tenure and the lawyer was satisfied that vacant possession could be obtained within the development timeframe, therefore the fact that there were tenants in the building did not affect market value."[45]

68. Mewn cyferbyniad, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

> "I have been involved with hundreds of property transactions during my career, and that is the first question that is asked. If you are going to buy the property with vacant possession, you make sure that there is no-one on the property—that can give you all the implications of people being there. If there are people there, and you accept it, you regularise those at the time of the transaction; you do not go ahead with the transaction and then sort it out later."[46]

69. Yn yr un modd, dywedodd Cyfarwyddwr Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru:

> "We should certainly not have purchased a property with vacant possession and then left people in it, which affects its value. You can buy a property with someone in it, but that would have to be taken into account in the valuation."[47]

70. Fodd bynnag, ni wrthododd Cyfarwyddwr Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru y rhesymau dros adael i bobl aros yn y gwesty yn llwyr, gan ddweud:

> "certainly in terms of residential stuff and transport, we try to let it because when there is someone in there it does not get broken into."[48]

---

[45] Amanda Brewer, sylwadau ar gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 8 Hydref 2012, Para 68
[46] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 385
[47] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 179
[48] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 240

71. Dywedodd Karen Sinclair nad oedd caniatáu i Mr Wong aros yn y gwesty wedi bod yn effeithiol o ran atal torri i mewn. Dywedodd:

> "people have been saying that it became derelict once Mr Wong went away, but it has been derelict, or a mess, for an awfully long time. Perhaps a few more windows were broken, but it was certainly derelict for a long time before."[49]

72. Credwn fod rhyw gyfiawnhad i ganiatáu i bobl aros ar eiddo sydd wedi'i brynu, i atal fandaliaeth a lleihau'r perygl o bibellau'n byrstio, ac ati. Fodd bynnag, mae'n hanfodol o dan amgylchiadau felly fod cytundeb sy'n gyfreithiol rwymol ynglŷn â hawl pobl i fod mewn eiddo. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru a oedd ganddi unrhyw dystiolaeth fod yna fframwaith cyfreithiol rwymol ffurfiol i ganiatáu i Mr Wong fyw yn yr eiddo. Mewn ymateb dywedodd:

> "The property was acquired subject to a tenancy at will in favour of Pol Wong relating to Flat 21 and an assured shorthold tenancy agreement in ...relation to [the occupant of] the Gatehouse. The assured shorthold tenancy to [the occupant of the gatehouse]... was terminated by Welsh Government in April 2007 with... [the occupant's] agreement.
>
> "As there was no written tenancy agreement in respect of Pol Wong's occupation it was proposed to document the tenancy formally and a draft tenancy at will was prepared in March 2007. The rental figure was left blank in the draft with the intention that it was completed once the rental was agreed with Mr Wong.
>
> "Subsequently instructions were given to issue a tenancy agreement in respect of the Gateway Flat rather than a tenancy at will and this was issued to Mr Wong for signature in 2009.
>
> "The tenancy agreement was returned by Pol Wong but it was never executed by Welsh Government."[50]

73. Rydym yn siomedig na chafodd y denantiaeth wrth ewyllys na'r cytundeb tenantiaeth eu gweithredu mewn gwirionedd gan Lywodraeth

[49] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 150
[50] Llywodraeth Cymru, River Lodge - Pwyntiau Gweithredu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cymru. Credwn y dylai unrhyw delerau meddiannaeth gael eu pennu cyn prynu eiddo, oherwydd gallai effeithio ar werth eiddo.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arfer polisi cyson wrth gaffael tir neu eiddo gyda meddiant gwag. Rhaid i delerau meddiannaeth gael eu pennu cyn prynu'r eiddo.**

# 2. Y penderfyniad i ymrwymo i brydles gyda Powys Fadog

74. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gytundeb Prydlesu cyfreithiol rwymol gyda Powys Fadog ar 17 Mehefin 2009, ddwy flynedd ar ôl prynu Gwesty River Lodge yn wreiddiol. Yn ôl y cytundeb byddai Gweinidogion Cymru'n rhoi prydles ar y gwesty i Powys Fadog pe gallai fodloni rhagamodau ariannol erbyn 17 Mehefin 2011 fan hwyraf a chwblhau'r gwaith adnewyddu o fewn dwy flynedd wedi hynny. Cyhyd ag y câi'r amodau i gyd eu bodloni, roedd yn ofynnol yn ôl y Cytundeb i Lywodraeth Cymru roi prydles atgyweirio ac yswirio lawn 25 mlynedd i Powys Fadog.[51] Eglurodd Pol Wong wrthym i'r negodi ynglŷn â'r cytundeb prydlesu gael ei gynnal gyda:

> "the head of infrastructure. We had been dealing with ... [him]... for a number of years. He felt that the Welsh Government had let us down quite a bit, and so did ... the regional director."[52]

**Pryderon adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru**

75. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi i uwch swyddogion gyda Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r brydles hon er gwaethaf pryderon a godwyd dro ar ôl tro gan ei Hadran Gyfreithiol ynglŷn â chyfreithlondeb y cynigion prydlesu, a pha un a oeddent yn cynnig gwerth da am arian.[53]

76. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd:

> "Y cynnig gwreiddiol ar yr adeg y prynodd Llywodraeth Cymru yr eiddo ym mis Mawrth 2007 oedd y byddai rhywfaint o'r tir yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru at ddibenion datblygu preswyl. Fodd bynnag, roedd y Cytundeb Prydlesu yn nodi bod pob rhan o'r tir at ddefnydd Powys Fadog."[54]

77. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn briodol fod cyngor cyfreithiol yn cael ei herio weithiau, neu byddai

[51] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.3 a 2.4
[52] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 159
[53] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.10 i 2.16
[54] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.2

sefydliad yn ymwrthod yn ormodol â risg. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roeddent o'r farn nad oes modd amddiffyn y penderfyniad i beidio â dilyn y cyngor cyfreithiol. Er enghraifft, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> "if you only ever followed legal advice, you would be so risk-averse that you missed out on opportunity. On the other hand, if you always rejected legal advice, you would be too gung-ho and entrepreneurial… in this case, the legal advice should have been followed and as soon as I looked at it I could see that. The legal advice was categorical: this was an unsafe set of decisions and I will not defend something that was unsafe all of the way through from the beginning to the end… I think and hope that, given what we have put in place since then, if exactly that were to happen again, there are more systems and processes in place to ensure that anything about which there is a disagreement, is escalated."[55]

78. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn yr un modd fod y prosesau wedi newid ers cyfnod negodi'r brydles. Heddiw, dywedodd, mewn gwrthdaro rhwng swyddogion cyfreithiol a swyddogion polisi yn ei adran, ni fyddent yn bwrw ymlaen â rhywbeth pe bai'r gwasanaethau cyfreithiol yn dweud "ni ddylech chi wneud hynny o dan unrhyw amgylchiadau."[56]

79. Mae'n werth nodi bod Ieuan Wyn Jones AC, y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr Economi a Thrafnidiaeth adeg y penderfyniad i ymrwymo i brydles, wedi dweud wrthym mai dim ond cael ei hysbysu o'r penderfyniad i ymrwymo i brydles a wnaeth ef ac na fu ganddo fel Gweinidog unrhyw ran weithredol yn gwneud nac yn cymeradwyo'r penderfyniad.[57]

80. Croesawn y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod ei phenderfyniad gwreiddiol i fwrw ymlaen â threfniant prydlesu, yn groes i gyngor cyfreithiol, yn ddiffygiol.

81. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu sicrwydd pendant fod ei phrosesau a'i diwylliant wedi newid yn ddigonol i osgoi sefyllfaoedd o'r fath rhag digwydd eto. Rydym yn

---

[55] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 84
[56] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 113
[57] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 187

cyfeirio'r sylw hwn nid yn unig at yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ond at Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'n hanfodol nad yw gwersi prosiect Gwesty River Lodge yn cael eu cyfyngu i un adran, ond yn treiddio drwy Lywodraeth Cymru gyfan. Hefyd, rydym o'r farn, mewn sefyllfaoedd lle mae swyddogion cyfreithiol a swyddogion polisi yn anghytuno, y dylai Gweinidogion gael gwybod am anghytuno o'r fath cyn y caiff unrhyw benderfyniadau terfynol eu gwneud.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, o dan amgylchiadau lle mae swyddogion cyfreithiol a swyddogion polisi yn anghytuno ynglŷn â phenderfyniad (yn cynnwys penderfyniadau sydd wedi cael eu dirprwyo gan Weinidog i swyddogion), y dylai'r Gweinidog gael gwybod am anghytuno o'r fath cyn y caiff unrhyw benderfyniad terfynol ei wneud.**

### Cyfathrebu rhwng gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru

82. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhagweld, adeg y penderfyniad i ymrwymo i brydles gyda Powys Fadog, y byddai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gwrthod cais am £326,000 o arian grant, ac y byddai'r cais am fenthyciad o £565,000 oddi wrth Cyllid Cymru hefyd yn cael ei wrthod. Roeddid yn disgwyl am benderfyniad ar gais am grant o £608,000 a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2009 o dan y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol. Roedd Powys Fadog wedi cael cynnig o gymorth mewn egwyddor yn gysylltiedig â chais am £255,000 o Grant Gwella'r Amgylchedd.[58]

83. Er bod adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru yn nodi pryderon ynglŷn â darparu arian i Powys Fadog, nododd Karen Sinclair ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar y pryd nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chyfleu'n ddigonol o fewn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, dywedodd Karen Sinclair:

> "there did not at the time seem to be any central control or compilation, if you like, of the applications for grants. There were many streams of grant that you could apply for, but it seemed that people were able to apply for all sorts, but none of the people administering those grants talked to one another

[58] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.17

and said, 'Oh yes, I've had a grant application as well'. I found it odd that there did not seem to be any joined-up thinking, and I was quite disappointed about that."[59]

84. Roedd gohebiaeth rhwng swyddogion WEFO, a ddaeth i law Karen Sinclair yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth, yn dangos y diffyg cyd-drefnu canolog hwn ym mherthynas Llywodraeth Cymru gyda Powys Fadog, gydag un swyddog yn dweud nad oedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel un corff ar y mater.[60]

85. Nid dyma'r tro cyntaf y mae Pwyllgor o'r Cynulliad wedi clywed am ddiffyg cyfathrebu a chyd-drefnu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, ac wedi bod yn feirniadol o hynny. Rydym yn falch, fodd bynnag, i Lywodraeth Cymru ddweud, wrth ymateb i'n hadroddiad interim ar Reoli Grantiau yn ddiweddar:

> "a central grant management IT system is planned as part of the GMP [Grants Management Programme]. The implementation of this Customer Relationship Management (CRM) system will provide the Welsh Government with… necessary management information."[61]

86. Croesawn y ffaith fod system Rheoli'r Berthynas â Chwsmeriaid i gael ei datblygu o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol fod y system hon nid yn 'system TG' yn unig ond ei bod hefyd yn golygu newid meddylfryd o fewn Llywodraeth Cymru, a'i bod yn mynd ati i annog dull o weithredu sy'n cael ei gyd-drefnu ar draws y gwahanol adrannau a swyddogion. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fel sefydliad fod yn ymwybodol o'r gwahanol grantiau y mae sefydliad unigol yn gwneud ceisiadau iddi amdanynt. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnal asesiad mwy strategol o'r risgiau a'r buddion sydd ynghlwm â darparu nifer o grantiau i un sefydliad. Rydym wedi ystyried y mater hwn ymhellach yn ein hadroddiad ar Reoli Grantiau yng Nghymru.

---

[59] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 157
[60] Gohebiaeth a ddarparwyd gan Karen Sinclair AC
[61] Llywodraeth Cymru, Ymateb i 'Adroddiad Interim – Rheoli Grantiau' y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

## 3. Yr ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i gynigion amgen a gyflwynwyd gan Powys Fadog

87. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud, pan ddaeth yn amlwg na fyddai Powys Fadog yn gallu codi'r arian i'w alluogi i gyflawni telerau'r Cytundeb Prydlesu, fod y cwmni wedi cyflwyno cynigion amgen i ddiogelu'r defnydd y bwriadai ei wneud o safle River Lodge. Y cynigion oedd:

- i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn brydlesu River Lodge oddi wrth Lywodraeth Cymru ac i'r Gymdeithas, yn ei thro, is-osod yr eiddo i Powys Fadog. Byddai'r cynnig hwn, er ei fod yn fanteisiol i Powys Fadog a'r Gymdeithas Tai, wedi golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn talu £0.5 miliwn ychwanegol er mwyn i'r prosiect fynd yn ei flaen, yn ogystal ag ildio incwm rhent am 60 mlynedd – gwerth £1.6 miliwn pellach, ar sail y telerau rhentu a bennwyd yn y Cytundeb Prydlesu gyda Powys Fadog;[62]
- ymestyn dyddiad dirwyn i ben y Cytundeb Prydlesu, sef Mehefin 2011, fel y gallai Powys Fadog barhau i geisio codi arian allanol;[63] neu
- i Lywodraeth Cymru wneud buddsoddiad pellach sylweddol drwy dalu am y gwaith atgyweirio ac adnewyddu hanfodol, yr amcangyfrifwyd y byddai'n costio oddeutu £800,000.[64]

88. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Pol Wong hyn:

> "I had heard that housing associations were keen on supporting community projects, so eventually what we did was approach Clwyd Alyn Housing Association. We had discussions with it, and it really loved the idea of everything behind the project and was happy to support it. So, Clwyd Alyn spoke with the officers within the Welsh Assembly Government and they agreed between them a proposal that would provide the money for the refurbishment of the building. As I said, we had already had approval for an environmental improvement grant. Clwyd Alyn

[62] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.9 i 3.18
[63] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.19
[64] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.19

> was happy to put in £300,000, which was approximately a third of the cost, and the environmental improvement grant was also about a third of the cost, and a property grant was agreed by the Department for the Economy and Transport. So, in actual fact, we had raised the money."[65]

89. Roeddem yn nodi bod cynnig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ddibynnol felly ar i Lywodraeth Cymru ddarparu £0.5 miliwn pellach o arian grant. Cytunodd Pol Wong â'r dadansoddiad hwn, gan ddweud:

> "£249,000 of that had already been approved for us, which was the environmental improvement grant. Then the property grant that I just spoke about, from the Department for the Economy and Transport, was the rest of that."[66]

90. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gogledd yn gefnogol o gynnig Clwyd Alyn a pharatoasant bapur briffio i'r Gweinidog dyddiedig 15 Ionawr 2010 yn nodi eu bwriad o dderbyn y cynnig. Fodd bynnag, cafodd y papur briffio hwn ei dynnu'n ôl gan nad oedd wedi cael sêl bendith y Gwasanaethau Cyfreithiol, a chafodd cyflwyniad dilynol hefyd ei ddal yn ôl nes bydd adolygiad cydymffurfio Llywodraeth Cymru, a fu ar y gweill er mis Gorffennaf 2009, wedi cael ei gwblhau.[67] Gan i'r papurau briffio gael eu tynnu'n ôl, roedd yn golygu na chawsant eu gweld gan y Gweinidog (nac, yn wir, gan Weinidogion eraill na Chynghorwyr Arbennig a fyddai efallai wedi cael copi ohonynt).

91. Cafodd pob cynnig amgen a gyflwynwyd gan Powys Fadog ei wrthod yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

> "Ym mis Gorffennaf 2011, ar ôl i'r Cytundeb Prydlesu ddirwyn i ben, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gymdeithas Tai Clwyd Alyn i hysbysu'r Gymdeithas yn ffurfiol na dderbyniwyd ei

[65] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 10
[66] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 14
[67] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.16

chynnig, yn seiliedig ar ddiffyg cysondeb ag amcanion y Llywodraeth ar y pryd ac ystyriaethau gwerth am arian."[68]

92. Gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwario arian cyhoeddus sylweddol ar Westy River Lodge yn y lle cyntaf, rydym o'r farn y byddai wedi bod yn briodol iddi geisio asesiad annibynnol o'r gwahanol gynigion a gyflwynwyd gan Powys Fadog. Nodwn fod arfarniad opsiynau wedi cael ei gynnal gan Gyfarwyddwr Rhanbarthol yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru, a dyma oedd y dyfarniad:

"nid oedd adroddiad yr arfarniad o blaid yr opsiynau a oedd yn ymwneud â Powys Fadog, gan nad oeddent yn gyson â'r blaenoriaethau polisi economaidd newydd. Nodwyd nad oedd y cyflwyniad a wnaed gan Powys Fadog yn bodloni'r gofynion polisi newydd."[69]

93. Nodwn fod yr arfarniad opsiynau hwn yn datgan nad oedd "yn cynnwys asesiad o gostau a buddiannau opsiynau amgen."[70] Rydym yn cydnabod y rhesymeg o benderfynu a oedd cynigion Powys Fadog yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau polisi newydd a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2010 gan Lywodraeth Cymru o dan ei pholisi *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd.*[71] Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai wedi bod yn briodol i'r arfarniad opsiynau ystyried hefyd a oedd y gwahanol opsiynau a gyflwynwyd gan Powys Fadog yn cynrychioli gwerth am arian. Rydym wedi ystyried y mater hwn ymhellach ym Mhennod 5 o'r adroddiad hwn.

94. Ar fater y gwerth am arian yr oedd cynnig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn ei gynrychioli, nodwn y sylwadau yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

"Yn ein barn ni, roedd y cynnig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn yn darparu gwerth sylweddol is am arian i'r trethdalwr na thelerau'r Cytundeb Prydlesu yr oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo iddo gyda Powys Fadog. Byddai'r

---

[68] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.17
[69] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.12
[70] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.12
[71] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.19

cynnig wedi gofyn am fuddsoddi symiau sylweddol pellach o arian cyhoeddus er mwyn rhoi menter ddatblygu gymunedol Powys Fadog ar waith. Yn ogystal â'r £1.6 miliwn yr oedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i dalu i brynu'r eiddo, byddai wedi gorfod darparu cymorth ariannol ychwanegol o bron i £500,000. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorfod mynd heb unrhyw incwm rhent am drigain mlynedd, a fyddai'n werth £1.6 miliwn yn seiliedig ar y telerau rhentu a nodwyd yn y Cytundeb Prydlesu gyda Powys Fadog."[72]

[72] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.18

# 4. Y ffordd yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â gwrthdaro buddiannau

> "In my opinion, there was a clear conflict of interest and I really could not understand how anybody could think there was not."[73]

– Karen Sinclair, cyn-Aelod Cynulliad De Clwyd

**Y gwrthdaro buddiannau**

95. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau i Amanda Brewer arwain y broses o brynu Gwesty River Lodge tra oedd hi hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Powys Fadog ac yn Ysgrifennydd y Cwmni.[74] Nodwn nad Amanda Brewer a gwblhaodd y pryniant, ond iddi yn hytrach gyflwyno'r cynnig i brynu i Gyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru, a oedd ag awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo prosiectau cyfalaf hyd at £4 miliwn.

96. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod Amanda Brewer wedi datgan buddiant yn Powys Fadog ym mis Rhagfyr 2006 drwy gyfrwng memorandwm mewnol.[75] Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi i Adolygiad Cydymffurfio Llywodraeth Cymru ganfod na wnaeth Amanda Brewer geisio cymeradwyaeth ffurfiol gan ei Hadran Adnoddau Dynol na chan ei rheolwr llinell cyn derbyn y penodiad fel un o Gyfarwyddwyr Powys Fadog, fel sy'n ofynnol yn ôl y cod ymddygiad.[76] Ar y pwynt hwn, dywedodd Amanda Brewer wrthym:

> "It is not recorded, but I had a discussion with the WDA human resources department and my line manager before I took the directorship, and I was told that the policy and procedure in relation to directorships did not seem to relate to voluntary directorships; it just seemed to relate to something for which, perhaps, you were getting a pecuniary advantage, or you were doing for yourself rather than as a volunteer. The WDA and the Assembly Government very strongly encouraged its officials to

[73] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 137
[74] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.14-1.15
[75] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.14
[76] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.16

use their skills and expertise to help community organisations."[77]

97. Er ei fod yn llwyr ymwybodol o'i buddiant hi yn Powys Fadog, gofynnodd rheolwr llinell Amanda Brewer iddi:

> "drafod telerau gyda'r gwerthwr ar ran Llywodraeth Cymru, ar y sail mai hi oedd yr aelod uchaf o ran lefel a oedd yn weddill o staff y WDA gynt yng Ngogledd Cymru a oedd yn meddu ar wybodaeth am y prosiect."[78]

98. Rydym yn gryf o'r farn nad yw cofrestru buddiant yn unig yn ddigon. Rhaid wedyn ystyried a oes potensial i wrthdaro buddiannau, a sut mae modd ymdrin â gwrthdaro buddiannau posibl. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bernir wedyn nad oes angen gweithredu pellach (y tu hwnt i ddatgan buddiant). Ond mewn amgylchiadau eraill, efallai ei bod yn amhriodol i unigolyn sydd â buddiant neilltuol ymwneud â gweithgaredd penodol mewn unrhyw ffordd.

99. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dywedasom fod ymwneud Amanda Brewer â Powys Fadog wedi creu – yn ein barn ni – risg uchel o wrthdaro buddiannau â'i rôl ym mhryniant Gwesty River Lodge. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod Adolygiad Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru o'r farn fod cysylltiad uniongyrchol rhwng gwrthdaro buddiannau'r swyddog a'r diffyg arfarniad trylwyr o'r opsiynau, cyn ac ar ôl caffael yr eiddo, i sicrhau'r gwerth gorau am ariana o'r ased.[79]

100. Croesawn y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn y pen draw wedi cydnabod ei bod ar fai yn gofyn i swyddog a oedd â buddiant cofrestredig i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn. Rydym o'r farn ei bod yn gwbl amhriodol i Lywodraeth Cymru ofyn i swyddog sydd â buddiant cofrestredig i gaffael eiddo gyda'r bwriad iddo gael ei ddefnyddio gan y corff yr oedd a wnelo'r buddiant ag ef. Daeth Swyddfa Archwilio Cymru hithau hefyd i'r casgliad na wnaeth

[77] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 251
[78] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.15
[79] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.17

Llywodraeth Cymru reoli'r risg yn gysylltiedig â'r gwrthdaro buddiannau posibl hwn yn effeithiol.[80]

101. Dywedodd Amanda Brewer wrthym nad oedd wedi gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion yn ymwneud â Gwesty River Lodge na Powys Fadog ar ôl i'r gwesty gael ei brynu yn 2007. Dywedodd y canlynol am ei rheolwr:

> "...was the case officer for River Lodge from the date the decision was made to purchase. I was not at any time involved in drafting any of the Ministerial Briefings or responding to letters or FOI requests relating to the project and I did not act for or represent Welsh Government in relation to River Lodge in any way post purchase."[81]

102. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i brofi bod a wnelo Amanda Brewer â'r prosiect ar ran Llywodraeth Cymru ar ôl i'r gwesty gael ei brynu.[82] Yn hytrach, mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael yn dangos mai ar ran Powys Fadog yn unig y gweithiai Amanda Brewer yn ystod y cyfnod yn arwain at lofnodi'r Cytundeb Prydlesu, a'r tu hwnt. Yn wir, dywedodd Pol Wong wrthym mai unig rôl Amanda Brewer oedd yr elfennau rheoli prosiect yn gysylltiedig â'r gwaith adnewyddu.[83]

103. Fodd bynnag, gan fod rheolwr llinell Amanda Brewer yn arwain y prosiect ar ran Llywodraeth Cymru, a bod Amanda Brewer yn wreiddiol wedi arwain y broses o brynu'r eiddo, rydym o'r farn fod potensial sylweddol iawn yn y trefniant hwn i greu dryswch ynglŷn â phwy oedd yn cynrychioli pwy.

104. Yn eironig, mae'n ymddangos bod y dryswch hwn wedi dod i'r amlwg ar adegau yn ein hymchwiliad. Er enghraifft, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol blaenorol wrthym fod papur briffio i'r Gweinidog (a ysgrifennwyd ar ôl i Westy River Lodge gael ei brynu) wedi cael ei ysgrifennu gan yr unigolyn a oedd yn gyfrifol am reoli'r prosiect prynu.[84] Mae'r dystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu nad oedd y datganiad hwn yn gywir. Noda adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r

[80] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.24, 2[il] fwled
[81] Amanda Brewer, Sylwadau ar gyfarfod y Pwyllgor 23 Hydref 2012, Para 197
[82] Mae hyn wedi ei nodi hefyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.22
[83] Pol Wong, Datganiad Personol gan Pol Wong, Td 12
[84] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 22

papur briffio hwn gael ei ddrafftio gan reolwyr llinell Amanda Brewer, yn hytrach na chan Amanda Brewer ei hun, gan nad oedd hi erbyn hynny'n cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosiect.[85]

105. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn awgrymu y byddai'r gwahanol rolau dryslyd hyn wedi bod yn hysbys hefyd i'r gwahanol bartïon a oedd yn ymwneud â phrosiect Gwesty River Lodge. Er enghraifft, dywed yr adroddiad am Gymdeithas Clwyd Alyn:

> "Dywedodd y Gymdeithas wrthym mai'r swyddog o fewn Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r achos o wrthdaro buddiannau a oedd wedi cysylltu â hi gyntaf, gan ei gwneud hi'n glir ei bod yn gweithredu ar ran Powys Fadog. Roedd y Gymdeithas yn ymwybodol bod y swyddog yn cael ei chyflogi gan Lywodraeth Cymru ar y pryd."[86]

106. Gan ychwanegu at y dryswch, dywed yr adroddiad fod Amanda Brewer yn defnyddio'i chyfeiriad e-bost yn Llywodraeth Cymru tra oedd yn gweithio ar ran Powys Fadog.[87] Roedd ei rheolwyr lleol yn gwybod am y ffordd yr oedd yn gweithredu.

107. Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac Amanda Brewer dystiolaeth groes i'w gilydd inni ynglŷn â defnydd Amanda Brewer o'i chyfrif e-bost. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth fod Amanda Brewer yn plagio[88] ei chydweithwyr ar ran Powys Fadog. Mewn cyferbyniad, dywedodd Amanda Brewer ei bod yn ymateb i gwestiynau ac ymholiadau'i chydweithwyr ar ran Powys Fadog.[89] Dywedodd:

> "I was frequently asked by colleagues dealing with the Powys Fadog project for information during working times. That was another reason for using e-mails, because I was asked and would have to store information relating to Powys Fadog on the Welsh Assembly Government drive to be able to provide that information. I was frequently asked for plans and that sort of

[85] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.24
[86] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.11
[87] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.22
[88] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 525
[89] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 287

thing, and they used the Assembly Government e-mail address to e-mail me to ask for information about Powys Fadog that I was providing to them as a volunteer, rather than as anything else."[90]

108. Ni chredai Amanda Brewer fod polisïau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio e-bost yn gwahardd gweithredu fel a wnâi. Dywedodd:

> "the rules did not say anything; all they said is that you should not use your Government e-mail address for personal use. We did not consider volunteering to be personal; it was separate from that… My line manager, John Adshead, and Ian Williams were aware that this is what I was doing. In actual fact, I think that Karen Sinclair brought it to the Minister's attention in July 2009 that I had used an e-mail address for grant applications, and I would have thought that, bearing in mind that that letter was also subject to a ministerial briefing that went to the Permanent Secretary and everyone below her, if they had thought that there was a problem, they would have told me to stop immediately, because that was when the majority of grant applications were going in. I made sure, before I sent any grant application out to an internal organisation, or even an external organisation, that they were fully aware that I was doing it in a voluntary capacity and not on behalf of the Welsh Assembly Government. I always put a disclaimer that said that on the bottom of the e-mail. Internally, in other departments, people were well aware that I was acting as a volunteer, and not for the Assembly Government."[91]

109. Nodwn fod Amanda Brewer wedi trafod ei defnydd o gyfrifon e-bost Llywodraeth Cymru gyda'i rheolwyr yn y Gogledd, ac y gallai swyddogion eraill fod wedi dweud yn gynnar yn y broses fod ei defnydd o e-bost yn broblem. Nodwn hefyd ei bod yn rhoi ymwadiad ar ei negeseuon e-bost.

110. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod potensial sylweddol, wrth ddefnyddio cyfrif e-bost Llywodraeth Cymru ar ran sefydliad arall, i greu cryn ddryswch o ran pwy yr oedd Amanda Brewer yn ei gynrychioli mewn perthynas â Gwesty River Lodge. O'n safbwynt ni,

[90] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 287
[91] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 276 a 278

mewn gwirionedd mae i swyddog ddefnyddio cyfrif e-bost ar ran corff allanol yn un o'r ffyrdd mwy amhriodol o'i ddefnyddio. Mae hynny oherwydd fod iddo'r potensial o greu dryswch o ran pwy y mae swyddog yn ei gynrychioli. Mewn cymhariaeth, mae defnydd mwy 'personol' o gyfrif e-bost (er enghraifft, rhywun yn dweud wrth ei gymar y gallai fod yn hwyr adref o'r gwaith) yn ymddangos yn gymharol ddibwys.

111. Roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r faith i'r cyfrif e-bost gael ei ddefnyddio fel hyn, a'r ffaith na wnaeth uwch reolwyr nodi y gallai hyn fod yn broblem. Rydym, fodd bynnag, yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru yn y pen draw ei bod ar fai yn caniatáu i gyfeiriad e-bost a oedd yn perthyn i Lywodraeth Cymru gael ei ddefnyddio ar ran corff allanol. Cytunwn hefyd â chanfyddiad Archwilwyr Mewnol Llywodraeth Cymru fod y ffordd yr ymdriniwyd â'r gwrthdaro buddiannau drwyddi draw yn 'gwbl annigonnol.'[92]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i pholisïau Adnoddau Dynol o ran defnyddio cyfrifon e-bost i sicrhau ei bod mor glir â phosibl bob amser pa sefydliad y mae swyddog yn ei gynrychioli.**

### Rôl uwch swyddogion yn rheoli gwrthdaro buddiannau

112. Drwy'n hymchwiliad ar ei hyd, clywsom yn gyson fod uwch reolwyr yn y Gogledd yn ymwybodol o rôl Amanda Brewer yn Powys Fadog. Yn arbennig, dywedodd un o'n Haelodau wrth Gyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth:

> "It concerns me that there were so many managers above Amanda Brewer who obviously knew what was going on... I believe that there were senior officers above Amanda Brewer who should have told her to get out of the scene and to walk away because, at the end of the day, there was a conflict of interest in their opinion."[93]

113. Fel y nodwyd uchod, rydym o'r farn y dylai uwch reolwyr yn swyddfa Llywodraeth Cymru yn y Gogledd fod wedi ymdrin â'r

---

[92] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.22 i 2.25
[93] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 504

gwrthdaro buddiannau posibl yn llawer mwy effeithiol. Yn arbennig, credwn:

- ei bod yn amhriodol gofyn i Amanda Brewer arwain y broses o brynu'r eiddo yn wreiddiol;
- ei bod yn amhriodol caniatáu iddi gynrychioli sefydliad allanol mewn perthynas â phrosiect lle'r oedd ei rheolwr llinell hi yn cynrychioli Llywodraeth Cymru;
- a'i bod yn amhriodol peidio â dynodi bod potensial yn ei defnydd o gyfrif e-bost a oedd yn perthyn i Lywodraeth Cymru i greu dryswch ynglŷn â phwy yr oedd yn ei gynrychioli.

114. Fodd bynnag, nid yw'n beirniadaeth wedi'i chyfyngu i uwch reolwyr yn swyddfa'r Gogledd.

115. Er bod uwch reolwyr yn ymwybodol o rôl Amanda Brewer yn Powys Fadog, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth wrthym:

> "I was given a categorical assurance by the regional director—I can send you the e-mail—that there was no conflict of interest as regards Amanda Brewer. When a senior manager told me that in such categorical terms, I accepted it."[94]

116. Gofynasom i Gyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ddarparu copi o'r e-bost inni, a dyma a ddywedai:

> "Have now had a chance to investigate this with the team and just wanted to reassure you that there is no need to worry about this one – everything has been done in absolutely the appropriate way, the right processes and protocols have been followed and no conflict of interest – [Amanda Brewer's line manager] is currently emailing you a response which he will follow up tomorrow with a full briefing."[95]

117. Roeddem wedi'n syfrdanu na chymerodd rheolwr uchel iawn ei statws gamau pellach i sefydlu un ai nad oedd gwrthdaro buddiannau, neu fod y potensial ar gyfer gwrthdaro yn cael ei reoli.

[94] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 477
[95] Llywodraeth Cymru, River Lodge - Pwyntiau Gweithredu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Td 6.

118. Rydym o'r farn y gallai unrhyw reolwr – ni waeth ar lefel pa mor uchel – gael anhawster i asesu'n wrthrychol pa mor dda yr oedd ef neu hi yn cyflawni'i rôl yn rheoli gwrthdaro buddiannau posibl yn achos aelod arall o'r staff. Byddai esbonio sut yr oedd gwrthdaro posibl yn cael ei reoli yn gam cyntaf pwysig er penderfynu a oedd y rheoli ar wrthdaro posibl yn ddigonol ai peidio.

119. Gadewir ni â'r teimlad anghyfforddus nad oedd unrhyw reolaeth yn ôl pob golwg yn cael ei harfer gan Lywodraeth Cymru yn y 'canol' dros ddigwyddiadau yn y Gogledd. Rydym yn feirniadol na wnaeth rheolwyr ar lefel uchel iawn yn Llywodraeth Cymru (a ddisgrifwyd fel arfer yn ein hymchwiliad fel rheolwyr wedi'u lleoli yng Nghaerdydd) yn ôl pob golwg geisio mwy o sicrwydd fod gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli, a hynny'n mae'n ymddangos yn dangos rhy ychydig o reolaeth ganolog. Mewn tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cydnabod mai cyfyngedig oedd y rheolaeth ganolog. Dywedodd:

> "I was responsible for transport, road construction, buses and trains, as well as international matters and tourism—you had to rely, as a manager, on your chain of command. You can see how many links there were in the chain. There was Amanda Brewer, who was a chartered surveyor with 30 years' experience—a senior grade 7 civil servant—who reported to John Adshead, a grade 6 civil servant, who was also a very experienced chap, and then to a grade 5 senior civil servant, Vanessa Griffiths in the first instance, and then Ian Williams, who then reported to someone below me, namely the director of operations, Sharon Linnard. You can see where I was in the chain of command. I had to rely on the empowerment and professionalism of the staff, working within the rules and their delegations."[96]

120. Mae'n wrth nodi i Andrew Davies, yn siarad fel y cyn-Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau, ddweud wrthym fod rhai cyfarwyddwyr rhanbarthol, yn ei brofiad ef, yn niffyg cyd-drefnu neu reoli ar draws Cymru gyfan, yn ymddwyn bron fel barwniaid canoloesol."[97] Dywedodd hefyd:

---

[96] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 401

[97] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 246

> "I was talking to senior officials recently and there are still some elements of that culture in existence in the current department."[98]

121. Roedd y sylwadau hyn yn peri pryder neilltuol inni. Credwn eu bod yn dangos yr angen i Lywodraeth Cymru drwyddi draw ddysgu gwersi prosiect Gwesty River Lodge yn gyflym, yn hytrach na chymryd mai cyfres unigryw o amgylchiadau oedd i gyfrif am yr hyn a ddigwyddodd. Mae'n gwbl briodol fod uwch reolwyr yn grymuso staff, ac yn dirprwyo cyfrifoldebau iddynt, ond nid yw hynny'n cyfiawnhau diffyg ymddangosiadol o gyd-drefnu trosfwaol.

122. Gofynasom i Gyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru a yw'n darllen pob papur briffio y caiff gopi ohono. Wrth wneud hynny, roeddem eisiau deall ai mater o hap a damwain oedd canfod problemau, fod uwch reolwyr yn digwydd sylwi ar fater mewn papur briffio. Dyma oedd ymateb Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru:

> "Do I? No. I get copied into everything, but do I read them all? Honestly, no. Could I read them all? Probably, if I did nothing else. However, what I would see is anything that anyone had a problem with. Sorry, Jeff [Collins, Director of Delivery for Business, Enterprise, Technology and Science] would first see it if anyone had a problem with something in his area, and he would have the opportunity—or the desire—to sort it out and work with the finance team, if it had raised the concern, to sort it out. If that could not be done, it would be raised with me, and I would then bring everyone together to try to sort it out."[99]

123. Roeddem yn croesawu'r sylwadau hyn. Credwn ei bod yn bwysig fod gan Lywodraeth Cymru systemau cadarn i alluogi'i huwch reolwyr i ganfod materion sy'n peri pryder.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phrosesau mewnol, fel bod uwch reolwyr, lle caiff pryderon eu mynegi am wrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas ag aelod o'r staff, yn ceisio eglurhad penodol i ddweud pam y credir bod y gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol. Rydym**

[98] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 246
[99] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 150

**o'r farn y dylai digonolrwydd yr eglurhad hwnnw gael ei brofi'n annibynnol wedyn, y tu hwnt i gadwyn rheolaeth linell yr aelod o staff.**

124. Yn ein hymchwiliad, clywsom hefyd am nifer o negeseuon a gyflëwyd gan uwch reolwyr yn Llywodraeth Cymru, a allai fod yn negesuon cymysg. Er enghraifft, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth wrthym fod polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig yn bodoli yn 2007 ynglŷn â mynychu cyfarfodydd mewn swyddogaeth wirfoddol. Eglurodd fod y rhain yn manylu ar y gofynion ar swyddogion Llywodraeth Cymru – pryd y dylent:

> "step out of a room, when they should step back in, and the items that they could and could not discuss." [100]

125. Yn ychwanegol at y polisïau ysgrifenedig hyn, dywedodd hefyd:

> "regular briefings were given to people in the organisation about governance, both in the WDA and the Welsh Government." [101]

126. Fodd bynnag, clywsom hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2007 yn cael eu hannog yn frwd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli. Dyma a ddywedodd Amanda Brewer:

> "with volunteering, I seem to remember the Permanent Secretary being on the internet all the time encouraging people to volunteer and to use their services. There were very much mixed messages. I certainly felt that I was doing what the Assembly Government was encouraging me to do, in helping my community."[102]

127. Nid oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn amau bod staff yn cael eu hannog i wirfoddoli. Yn wir, dywedodd:

> "I was a volunteer member of the board of governors of Swansea College, and I was actively encouraged in the WDA to do that; it was the policy… You were encouraged to use your

[100] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 467
[101] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 473
[102] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 289

> professional skills and expertise in a voluntary capacity—umpteen people are school governors, others help with the Scouts and with rugby clubs, among other things. However, the big difference was that if anything came across your desk in doing that voluntary work that impinged in any way on your professional work, you excused yourself and you had absolutely no more to do with it."[103]

128. Yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar unigolion i benderfynu pryd y dylent "gamu allan o'r ystafell" ar faterion penodol, rydym o'r farn y byddai'n fwy priodol annog pobl i beidio â gwasanaethau ar gwmnïau allanol oni bai fod hynny yn benodol o fudd i Lywodraeth Cymru.

129. Rydym felly yn croesawu'r ffaith fod y dystiolaeth yn ein hymchwiliad yn awgrymu, ers adeg prynu Gwesty River Lodge, fod Llywodraeth Cymru yn annog pobl yn fwy penodol i beidio â gwasanaethu ar fyrddau. Fel Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth, roedd y pennaeth llywodraethu cyfredol o'r farn fod amgylchiadau pan ddylai swyddogion "gamu allan o'r ystafell", ond aeth ymhellach gan ddweud:

> "sometimes you need to stay out of that particular discussion… sometimes you need to just not go to a meeting at all, and sometimes you need to step away from that role entirely."[104]

130. Croesawn hefyd y sylwadau hyn gan y pennaeth llywodraethu cyfredol:

> "We are going to put out another note between now and Christmas that will go into more detail about conflicts of interest to help people identify one that arises, and which will include what I propose to be a kind of sliding scale of the action that needs to be taken in respect of that, because we do have a responsibility to clarify in a bit more detail what a conflict of interest is and what you do when you get it."[105]

131. At hynny, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth cyfredol Llywodraeth Cymru:

---

[103] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 454
[104] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 37. Pwysleisir y pwynt hwn hefyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (Para 1.24, y bwled olaf)
[105] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd, Para 34

"The expectation now is that, ordinarily, people will not sit on boards of companies. There are some exceptions to that, so a wholly owned subsidiary of ours, Finance Wales, regularly puts people on the board of companies that it invests in. As a department, we do not." [106]

132. Rydym yn croesawu'r disgwyliad yn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth na fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn eistedd ar fyrddau cwmnïau fel arfer oni bai fod hynny'n benodol er budd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod angen i hyn fod yn ddisgwyliad clir ar draws Llywodraeth Cymru drwyddi draw, yn hytrach na'i fod wedi'i gyfyngu i unrhyw adran unigol. Rydym hefyd o'r farn y dylai fod rhyw fath o adolygiad rheolaidd pa un a yw'n dal o fudd i Lywodraeth Cymru i swyddog fod ar fwrdd cwmni allanol.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i pholisïau Adnoddau Dynol i sicrhau bod swyddogion yn cael eu hannog i beidio â gwasanaethu ar fyrddau allanol, oni bai fod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan eu Cyfarwyddwr yn dweud y credir y byddai er budd pennaf Llywodraeth Cymru iddynt wasanaethu felly. Rydym yn rhagweld y gallai fod eithriadau i bolisi o'r fath (i alluogi – er enghraifft – gwasanaethu ar gorff llywodraethu ysgol).**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu, yn flynyddol, a yw'n dal er budd pennaf Llywodraeth Cymru i aelodau o staff unigol barhau i wasanaethu ar fyrddau cwmnïau allanol.**

133. Darparwyd tystiolaeth inni fod gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth bellach gronfa ddata electronig o fuddiannau cofrestredig swyddogion, a'r camau a gymerir i liniaru effeithiau buddiannau o'r fath. Dywedwyd wrthym:

"As far as BETS is concerned, which is what we are looking at at the moment, all of those manual declarations of interest forms are then entered onto an Excel database. So, there is a database, and the BETS one, for example, currently holds 148 entries. Part of the system includes the description of management action, which is to mitigate any conflicts." [107]

[106] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 263
[107] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd, Para 54

134. Rydym yn croesawu cyflwyno'r gronfa ddata electronig hon o fuddiannau cofrestredig swyddogion, a'r camau a gymerir i liniaru effeithiau buddiannau o'r fath.

135. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu nad oedd y system hon yn gyson ar draws Llywodraeth Cymru gyfan. Yn arbennig, nid oedd yn ymddangos i ddechrau bod Llywodraeth Cymru yn dal gwybodaeth hygyrch am faint o'i swyddogion sydd ar hyn o bryd yn dal swyddi rheoli neu swyddi ar lefel y bwrdd gyda chyrff allanol. Yn hytrach, dywedodd y pennaeth llywodraethu cyfredol:

> "We cannot give you the number because, basically, this is held in a paper system at the moment, so we do not have a database that we can easily amass."[108]

136. Darparodd Llywodraeth Cymru'r wybodaeth hon inni'n ddiweddarach drwy ohebiaeth ysgrifenedig. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> "There are currently approximately 103 members of staff that hold board membership or are senior management of external bodies. These are broken down by Directorate General area as follows:
>
> – Business, Enterprise, Technology and Science - 33
> – Central Services (Permanent Secretary's Division, Legal Services, Strategic Finance and Performance and People, Places and Corporate Services) - 11
> – Health, Social Services and Children - 12
> – Sustainable Futures - 2
> – Local Government and Communities - 17
> – Education and Skills - 28
>
> "Most departments collate the information annually so some positions may no longer be held, hence the approximate figures."[109]

[108] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 39
[109] Llywodraeth Cymru, Ymateb i bwyntiau gweithredu yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 19 Tachwedd 2012.

137. O ystyried bod ei swyddogion yn gallu symud rhwng adrannau'n ddilyffethair, roeddem yn bryderus nad oedd cronfa ddata ganolog o fuddiannau cofrestredig swyddogion Llywodraeth Cymru drwyddi draw.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cronfa ddata ganolog i storio gwybodaeth am fuddiannau cofrestredig y swyddogion i gyd, a bod camau'n cael eu cymryd i liniaru'r potensial o wrthdaro rhwng buddiannau. Dylai cronfa ddata o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd.**

# 5. Amseriad adolygiadau a gynhaliwyd gan Llywodraeth Cymru, a'u canfyddiadau

### Yr adolygiad cydymffurfio mewnol

138. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn disgrifio bod uwch swyddogion Llywodraeth Cymru yn dod yn fwy a mwy pryderus yn ystod 2009 a 2010 am uniondeb, cadernid a gwerth am arian penderfyniadau blaenorol ynglŷn â River Lodge. [110] Ym mis Gorffennaf 2009 lansiodd Llywodraeth Cymru adolygiad cydymffurfio mewnol o'r penderfyniadau a oedd wedi'u gwneud erbyn y dyddiad hwnnw. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2010.[111]

139. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom bryderon am y ffordd y cafodd yr adolygiad cydymffurfio mewnol hwn ei ddatblygu. Yn arbennig, mynegodd Amanda Brewer bryder fod casgliadau allweddol yn yr adolygiad mewnol wedi newid ar ôl i'r awdur ei gwblhau 'ar ei wedd derfynol'. Dywedodd:

> "The key findings of the report… [Amanda Brewer's line manager] and I were given in early June 2010 (supposedly issued 26 February 2010) differed substantially from what we expected having regard to… [a] telephone conversation… [between Amanda Brewer's line manager and the author of the report] and the key findings… [that were] included in the draft ministerial submission of 17 February 2010."[112]

140. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ei bod yn credu y bu:

> "serious malpractice and wrongdoing by Welsh Government (WG) officials in relation to the disciplinary process in respect of… myself. The matter under consideration is the anomalies surrounding the publication of the… Project Review Report,

[110] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 7
[111] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Atodiad 2
[112] Amanda Brewer, Camymddygiad a chamweddu canfyddedig mewn perthynas â'r Adroddiad ar yr Adolygiad Cydymffurfio, Tudalen 5

referred to as the Compliance Review Report in the Wales Audit Office Report on River Lodge."[113]

141. Cytunai Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r adroddiad hwn. Dywedodd:

> "Chris Munday's report was put in final draft form, but quite a lot of representations were made by Mike Clarke from legal services, which resulted in changes. A document was sent to Sharon Linnard and me. I had some concerns that it was not the finished article, because there were still outstanding matters regarding the legal aspects, but that is when it was taken over by the Permanent Secretary, who was commissioning the internal audit report at that time."[114]

142. Gofynasom i Gyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth pam y galwyd yr adroddiad yn un 'terfynol' os nad oedd yn dal ond drafft. Dyma oedd ei ateb:

> "Chris Munday thought that it was his final report, and both Arwel and I saw it as a final draft report, which was never formally concluded because it was then overtaken by events, namely the formally instigated internal audit report. However, once again, I repeat the point that it was not buried, but that it was informing that and was presented in all its detail to the Wales Audit Office."[115]

143. Pan ofynnwyd ai mater i awdur adroddiad ai peidio yw penderfynu pryd mae'n adroddiad 'terfynol', atebodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth :

> "I asked Sharon Linnard (to initiate the review), and it should have been for Sharon Linnard to accept the report."[116]

144. Roedd y dystiolaeth i'n hymchwiliad yn dangos yn glir fod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r adroddiad ar yr adolygiad cydymffurfio mewnol ar ôl iddo ddod – ym marn yr awdur ar y pryd – yn fersiwn 'terfynol'.

---

[113] Amanda Brewer, Camymddygiad a chamweddu canfyddedig mewn perthynas â'r Adroddiad ar yr Adolygiad Cydymffurfio, Tudalen 1
[114] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 422
[115] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 449
[116] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 451

145. Fodd bynnag, nid oeddem yn glir ynglŷn â pha mor sylweddol oedd y newidiadau hyn, ac a oedd y sail resymegol i newidiadau o'r fath yn gadarn. Gofynasom felly i Lywodraeth Cymru ddarparu'r adolygiad cydymffurfio inni, gyda'r newidiadau wedi'u tracio i ddangos beth oedd wedi newid rhwng gwahanol fersiynau'r adolygiad.

146. Mewn ymateb, darparodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r newidiadau i'r adolygiad, ynghyd â datganiad tyst awdur yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r tribiwnlys cyflogaeth a alwyd yn wreiddiol i benderfynu ar hawliad Amanda Brewer iddi gael ei diswyddo'n annheg.

147. Roeddem yn siomedig na ddarparodd Llywodraeth Cymru gopi inni o'r adolygiad cydymffurfio, gyda'r newidiadau wedi'u tracio i ddangos y newidiadau penodol i'r ddogfen. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, heb ddogfen o'r fath nid ydym yn fodlon fod gennym ddigon o dystiolaeth i benderfynu a oedd y sail resymegol i ddiwygio'r casgliadau yn yr adolygiad cydymffurfio mewnol yn rhesymol ai peidio.

148. Dywedai datganiad tyst awdur yr adroddiad i gasgliadau'r adolygiad cydymffurfio mewnol gael eu diwygio oherwydd gwybodaeth ychwanegol a ddaeth i law rhwng 17 Chwefror 2010 a 26 Chwefror 2010. Mae'r datganiad tyst yn egluro, er i'r ymchwiliad gychwyn ym mis Gorffennaf 2009, iddo ddwysáu'n sylweddol tua diwedd mis Chwefror:

> "as I had been given a deadline of the end of February within which to submit my review report. During this period I circulated working versions of my report for input from others. In response to this I received further information which I subsequently inputted into the report."[117]

149. Dywedai awdur yr adroddiad yn ei ddatganiad tyst:

> "[I had] initially been provided with a snapshot of the e-mails sent from Ms Brewer's account. These examples were provided by Ms Brewer herself. Subsequent to 17 February 2010 I was made aware of further examples of the e-mails Ms Brewer had been sending from her Welsh Government e-mail account. The

[117] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Atodiad 1

volume of these personal e-mails was considerably greater than I had initially appreciated."[118]

150. Dywed y datganiad hefyd y gwnaed awdur yr adroddiad yn ymwybodol o'r canlynol:

> "of direct contact Ms Brewer had had with the Welsh Government Legal Service Department most notably a series of telephone conversations Ms Brewer had with Mair Williams on 10 March 2008 and the subsequent concerns raised by Patricia Clarke, Senior Lawyer, about such contact. In my view the fact that Ms Brewer had been chasing Legal Services directly for the Powys Fadog lease was a serious issue. For Ms Brewer to have contacted the Welsh Government's legal team directly, circumventing Martin Williams who was dealing with the lease negotiations on behalf of the Welsh Government was in direct contravention of established protocol. I felt in doing so, Ms Brewer had blurred the line between her involvement on behalf of Powys Fadog and as a Welsh Government officer. Ms Brewer, as Director of Powys Fadog had no business in dealing directly with the legal advisers of the landlord who was granting the lease, such negotiations should have gone through the appropriate legal channels."[119]

151. Wrth gynnal ymholiadau ac ymchwiliadau, mae gennym brofiad personol o bwysigrwydd cadw meddwl agored ynglŷn â goblygiadau gwybodaeth newydd. Rydym yn cydnabod bod angen i gasgliadau adroddiadau ystyried yr holl dystiolaeth a ddaeth i law. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion y tynnwyd sylw atynt yn y datganiad tyst yn peri pryder inni. Yn arbennig, roeddem yn synnu mai dim ond yn wythnos olaf ymchwiliad wyth mis y casglwyd gwybodaeth a oedd yn ôl pob golwg yn dyngedfennol i gynnwys yr adroddiad terfynol. Er eglurder, nid ydym yn feirniadol fod gwybodaeth o'r fath wedi cael ei chasglu. Yn hytrach, rydym yn siomedig na chafodd gwybodaeth o'r fath ei chasglu'n gynharach.

152. Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nodwyd bod Gwybodaeth Friffio i Weinidogion dyddiedig 15 Ionawr 2010 wedi cael ei pharatoi gan reolwr llinell Amanda Brewer, yn nodi bwriad i ymrwymo i brif brydles gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Cafodd y wybodaeth hon ei

[118] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Atodiad 1
[119] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Atodiad 1

thynnu'n ôl gan nad oedd wedi cael ei chymeradwyo gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.[120] Deallwn i Ffolder Gyflwyno gael ei drafftio wedi hynny, byddem yn tybio yn gwahodd y Gweinidog i benderfynu pa un i ymrwymo i brif brydles gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Dywedodd Amanda Brewer wrthym fod awdur yr adroddiad cydymffurfio wedi darparu ei ganfyddiadau allweddol ar ffurf newidiadau wedi'u tracio ar gyfer y Ffolder Gyflwyno yr oedd…[rhywun arall] yn ei pharatoi.[121] Nodwn i'r Ffolder Gyflwyno hon yn ei thro gael ei thynnu'n ôl, o ganlyniad i weithred yr Ysgrifennydd Parhaol yn sefydlu adolygiad archwilio mewnol ym mis Mawrth 2010 (yr ydym wedi'i ystyried yn yr is-bennod ddilynol). O ganlyniad, ni welodd y Gweinidog y Ffolder Gyflwyno hon.

153. Fodd bynnag, roeddem yn synnu'n fawr y byddai Ffolder Gyflwyno ddrafft yn cynnwys manylion am 'ganfyddiadau allweddol' ymchwiliad nad oedd wedi'i gwblhau ar y pryd gan fod disgwyl mewnbwn gan swyddogion eraill. Roedd i hyn y potensial o ddarparu briff anghytbwys.

154. Rydym o'r farn nad yw cynhyrchu fersiynau 'terfynol' tra gwahanol o'r adolygiad cydymffurfio yn ysgogi hyder. Mae'r ffaith i ymchwiliad fod ar y gweill yn ôl pob golwg am bron i wyth mis cyn casglu mewnbwn gan swyddogion eraill mewn cyfnod o wythnos hefyd yn peri pryder. Pe bai'r materion hyn yn codi wrth gynhyrchu adroddiad allanol, credwn y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei beirniadu am beidio â bod yn broffesiynol yn y ffordd y gwnâi ei gwaith. Credwn y dylai adroddiad mewnol gadw at yr un safonau.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phrosesau i sicrhau bod y gwaith o gynhyrchu adroddiad mewnol yn dilyn trefn yr un mor gadarn â'r drefn a ddilynir wrth gynhyrchu adroddiad allanol.**

### Yr adolygiad archwilio mewnol

155. O ystyried canfyddiadau arwyddocaol fersiwn derfynol yr adolygiad cydymffurfio mewnol,[122] comisiynodd yr Ysgrifennydd

---

[120] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 3.16
[121] Amanda Brewer, Camymddygiad a chamweddu canfyddedig mewn perthynas â'r Adroddiad ar yr Adolygiad Cydymffurfio
[122] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.2

Parhaol adolygiad archwilio mewnol ar unwaith. Dyma'r disgrifiad a roddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd yn ei thystiolaeth lafar:

> "The findings of the compliance review, which the WAO lays out clearly for us, said, 'Oops, this is not something sound' and Gareth Hall [former Welsh Government Director General of Economy and Transport] came to see me to say, 'We have a problem here; this is not a safe decision'. I wanted it looked at independent of anybody in that part of the organisation, which is why I commissioned Arwel to do it. So, it was raised with me because of concerns at DG level in that part of the organisation. Once we got to that point, the system worked fine; it was up to that point that I cannot justify."[123]

156. Daeth yr adolygiad archwilio mewnol i'r casgliad:

- na chynhaliwyd arfarniadau opsiynau priodol ar gamau allweddol o'r prosiect;
- bod gwrthdaro buddiannau ar ran un o swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at y methiant i sicrhau bod ei buddiannau'n cael eu diogelu o safbwynt sicrhau gwerth am arian; a
- bod y ffordd yr ymdriniodd rheolwyr rhanbarthol â'r gwrthdaro buddiannau wedi bod yn gwbl annigonol.[124]

157. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i ganfyddiadau'r adolygiad cydymffurfio mewnol a'r adolygiad archwilio mewnol beri i Lywodraeth Cymru wahardd:

> "y swyddog dan sylw a'i rheolwr llinell o'u swyddi ym mis Ebrill 2010, tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad disgyblu."[125]

158. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol inni wneud sylwadau am amgylchiadau achosion disgyblu unigol, na'r mesurau disgyblu gwahanol a gymerir mewn perthynas â gwahanol swyddogion. Mae hwn yn faes lle byddai tribiwnlys cyflogaeth mewn gwell sefyllfa i gynnig sylwadau na phwyllgor o Aelodau Cynulliad.

---

[123] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 141
[124] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.3
[125] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.6

159. Fodd bynnag, fel sylw am y broses ddisgyblu ei hun sydd gan Lywodraeth Cymru, credwn nad yw'n briodol fel arfer i'r penderfyniadau mewn proses ddisgyblu gael eu gwneud gan unigolyn sydd wedi bod â rhan yn flaenorol mewn unrhyw benderfyniadau mewn achos.

160. Credwn y byddai'n briodol fel arfer i brosesau disgyblu Llywodraeth Cymru gael eu cynnal gan swyddogion sydd y tu allan i gadwyn rheolaeth linell yr aelod o staff sy'n destun ymchwiliad disgyblu.

# 6. Cysylltiadau Llywodraeth Cymru â phartïon allanol

## Cyfathrebu â Powys Fadog

161. Noda adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Powys Fadog wedi dirywio unwaith y cafodd swyddogion eu hatal o'r gwaith. Y canlyniad oedd llifeiriant cyson o geisiadau am wybodaeth, cwynion, apeliadau a gweithredu cyn adolygiad barnwrol. Dywed yr adroddiad i'r sialensiau hyn effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn wir, ysgogodd Lywodraeth Cymru i adolygu'r ffordd y mae'n ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o'r math a'r swmp hwn.[126]

162. Gofynasom wedyn i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar y pryd a oedd yn credu bod Powys Fadog wedi cael ei drin yn deg. Mewn ymateb, dywedodd:

> "Although the lease was signed and we should not have signed it, we honoured it and the lease conditions. It had up until June 2011 to generate the money. Its problem was that it was dependent on 100% funding coming from the public purse and it had already been rejected by two different bits of the Welsh Government. It knew that it had been rejected by those two bits of the Welsh Government. So, I believe that, with an unsafe decision, it was treated perfectly fairly."[127]

163. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno bod Llywodraeth Cymru wedi'i rhwymo'n gyfreithiol i roi prydles pe bai Powys Fadog wedi gallu cyflawni'r rhagamod ariannol erbyn 17 Mehefin 2011, a chwblhau'r gwaith adnewyddu o fewn dwy flynedd wedi hynny.[128]

164. Fel y cyn-Ddirprwy Brif Weinidog, a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, mynegodd Ieuan Wyn Jones AC bryderon ynglŷn â'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Powys Fadog, a Pol Wong yn arbennig. Awgrymodd fod disgwyliadau mwy nag a oedd yn realistig wedi cael eu rhoi yn wreiddiol efallai i Powys Fadog, gan ddweud:

---

[126] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.7 i 4.9
[127] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 143
[128] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 2.3 a 4.5

> "Pan yr ydych yn edrych ar y dystiolaeth, fe welwch fod Powys Fadog yn amlwg yn credu bod y cynllun yn mynd i fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, roedd hynny, ar un lefel, yn afrealistig, ond fe roddwyd yr argraff honno. Dim ond yn Ebrill 2010 y daeth hi'n eithaf amlwg nad oedd y cynllun yn mynd i ddigwydd."[129]

165. Mae gohebiaeth a ddarparwyd gan Karen Sinclair yn dangos bod swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn pryderu pa mor gywir oedd y cyfathrebu rhyngddynt â Powys Fadog. Mae gohebiaeth rhwng swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ynglŷn â fersiwn derfynol llythyr at Powys Fadog yn cynnwys sylw bod gan un swyddog bryder arall, sef:

> "… that we have perhaps not stated clearly enough that the project is to be rejected outright as opposed to put on reserve."[130]

166. Ategwyd hyn gan Pol Wong. Drwy ddweud bod y prosiect wedi cael ei roi ar restr wrth gefn, yn hytrach na'i wrthod yn llwyr, roedd WEFO wedi rhoi'r argraff iddo fod y prosiect ei hun yn cael ei ystyried yn un hyfyw, ac mai'r unig reswm pam na roddwyd arian iddo oedd cystadleuaeth chwyrn. Dywedodd:

> "On the WEFO application, I note that the Permanent Secretary stated that we were unsuccessful and that we were turned down because of due diligence. That is simply not true. For a start, it put us on the reserve list. The reason we were not successful in getting the funding and were only put on the reserve list, according to the letter that I got, was due to the severe competition. There was no mention of due diligence in the letter that I had."[131]

167. Dywedodd fod swyddogion Llywodraeth Cymru, o'i safbwynt ef, wedi ymddangos yn frwdfrydig, gan ymhelaethu:

> "right up to the point when we put in our proposal [the Clwyd Alyn Housing Association proposal]—January 2010—everyone had been very supportive. Even the WEFO officials did not refuse our funding—it put us on the reserve list—and the

---

[129] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 216
[130] Llythyr Penderfyniad Ariannu Drafft, 8 Gorffennaf 2009, Gohebiaeth a ddarparwyd gan Karen Sinclair
[131] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 162

officer we were dealing with in WEFO, Ken Cook, was very keen and enthusiastic."[132]

168. Mynegodd Ieuan Wyn Jones AC hefyd bryder fod y cyfathrebu â Powys Fadog yn annigonol, unwaith y dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal arfarniad opsiynau. Dywedodd:

"...nid wyf yn siŵr iddo [Pol Wong] gael ei drin yn deg, a hynny oherwydd os oedd penderfyniad i beidio mynd ymlaen â'r cynllun wedi'i wneud, neu os oedd teimlad ar ôl edrych ar y cynllun busnes nad oedd yn ddigon *robust*, yna dylid fod wedi dweud wrth Powys Fadog yn llawer iawn cynt na fyddai'r cynllun hwn yn mynd yn ei flaen. Rwy'n credu bod yr oedi a ddigwyddodd yn annerbyniol.[133]

169. Roedd Pol Wong hefyd yn feirniadol ynglŷn â'r diffyg cyfathrebu ag ef o du Llywodraeth Cymru ar ôl mis Ionawr 2010. Gofynasom i Mr Wong pa fath o adborth yr oedd ei sefydliad wedi'i gael i ddweud pam yr oedd barn Llywodraeth Cymru wedi newid. Dywedodd na dderbyniwyd unrhyw adborth. Dyma'i eiriau:

"After that point, I never heard anything again. In fact, to this day, I have not had a decision on that. Every time that I have tried to approach the Welsh Assembly Government to explain what is happening—and, obviously, I have submitted the letters that I have written to the Permanent Secretary—I have never had an answer. The response has been, 'We are doing an investigation', 'We are doing this or that', 'We are doing an options appraisal', and I have never had an explanation."[134]

170. Dadleuai Pol Wong hefyd fod y diffyg cyfathrebu hwn wedi llesteirio Powys Fadog rhag ceisio sicrhau arian. Dywedodd:

"as I am sure that most of you know, if you make an application for the lottery or whatever, you have to make a detailed application; you have to know the current status of the grants that you thought that you had and ask, 'Do we have them or not?' We could not get answers from the Welsh Assembly Government. Its officials refused to speak to us. They would not give us any information, and they would not even talk to

[132] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 53
[133] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 214
[134] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 53

> us. So, we could not get grants. We were actively stopped from getting grants. In fact, once, when I attracted some potential funders related to the World Martial Arts Council, I had arranged with the Welsh Assembly Government to do a site visit. The funders came from York, but, when we got to the building, the security staff told us, 'We have been phoned this morning by the Welsh Assembly Government and it has told us not to let you in'. The Government did write to me about that, saying, 'Sorry, it was a terrible mistake' and so forth, which was okay, I suppose—we all make mistakes—but the point is that that happened and things like that have happened absolutely consistently since January 2010."[135]

171. Dywedodd Pol Wong hefyd, tra nad oedd Powys Fadog wedi clywed dim gan Lywodraeth Cymru, fod Llywodraeth Cymru yn ôl pob golwg wedi cysylltu â phartïon eraill:

> "even during March 2010, when we were still thinking that everything was fine, it had been in discussions with Betsi Cadwaladr LHB, negotiating on making a bid for the very same site."[136]

172. Nodwn fod cytundeb prydlesu cyfreithiol rwymol mewn bodolaeth yr oedd rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i'w gyflawni os gallai Powys Fadog gyflawni'r rhagamodau. Fodd bynnag, rydym yn feirniadol o'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Powys Fadog am ddau reswm.

173. Yn gyntaf, credwn fod disgwyliadau uwch nag a oedd yn realistig wedi cael eu rhoi i Powys Fadog nes i Lywodraeth Cymru gynnal arfarniad opsiynau. Rydym o'r farn ei bod yn hollol dderbyniol i swyddogion Llywodraeth Cymru ddymuno ymddangos yn frwdfrydig a chefnogol o brosiect. Ond ni all hynny fod ar draul rhoi gwybod i randdeiliad am bryderon ynglŷn â'r prosiect neu wendidau a welir ynddo. Mae atal gwybodaeth o'r fath yn rhwystro rhanddeiliad rhag adolygu a gwella'r prosiect, o bosibl.

174. Yn ail, credwn mai ychydig iawn o wybodaeth a roddwyd i Powys Fadog am yr hyn a oedd yn digwydd unwaith yr oedd yr archwiliad mewnol ar y gweill. Ni chredwn y dylai Powys Fadog fod wedi gorfod wynebu'r hyn a oedd yn gyfystyr bron â 'gwaharddiad cyfathrebu'.

---

135 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 57
136 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 181

Credwn ei bod yn gwbl briodol i Lywodraeth Cymru gynnal arfarniad opsiynau ynglŷn â'i defnydd o'r eiddo, ond gellid bod wedi rhoi gwybod i Powys Fadog am hyn mewn modd agored a buddiol.

**Cyfathrebu â Karen Sinclair**

175. Dywedodd Karen Sinclair fod y cyfathrebu rhyngddi a Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi ei gadael gyda'r argraff eu bod yn gwrthod ymateb.[137]

176. Efallai fod angen nodyn o esboniad yma. Efallai fod llawer o bobl yn cymryd, pe baent yn ysgrifennu llythyr at Weinidog yn y Llywodraeth, y bydd y Gweinidog yn darllen eu llythyr, ac un ai'n ysgrifennu'n ôl ei hun neu'n gofyn i swyddog ddrafftio ymateb. Fodd bynnag, weithiau nid yw Gweinidogion ond yn darllen gohebiaeth ar ôl i was sifil ddrafftio ymateb sy'n cael ei awgrymu i'r llythyr. Yn wir, os yw gweision sifil yn hwyr yn cynhyrchu ymateb, ni fyddai Gweinidog o reidrwydd yn gwybod hyd yn oed am yr ohebiaeth wreiddiol.

177. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd fod yr ymatebion i lythyron Karen Sinclair yn yr achos hwn yn cael eu drafftio gan reolwr llinell a chydlofnodwr Amanda Brewer a fu yn wir â rhan yn y penderfyniad i fwrw ymlaen â River Lodge.[138] Dywedodd:

> "You have to remember how systems and processes work. When something very detailed comes through, you ask the people with the expertise to respond. Normally, that is fine. In this case, you were asking for a response from the people who were at the heart of why we had a problem."[139]

178. Roeddem yn bryderus fod gohebiaeth Llywodraeth Cymru at Karen Sinclair yn cael ei drafftio mewn gwirionedd gan yr union bobl a oedd yn gyfrifol am reoli'r gwrthdaro yr oedd hi'n mynegi pryder amdano. Rydym o'r farn fod angen adolygu systemau Llywodraeth Cymru i atal rhywbeth fel hyn rhag digwydd eto. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaid i unrhyw ohebiaeth am wrthdaro buddiannau posibl gael ei hystyried y tu allan i gadwyn rheolaeth linell y swyddog dan sylw, neu fod gofyn iddi gael ei llofnodi gan swyddog ar lefel uchel iawn (h.y. Bwrdd Rheoli), yn hytrach na dim ond anfon copi at swyddog o'r fath.

---

[137] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 133
[138] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 96
[139] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 96

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i systemau i ymdrin â gohebiaeth Weinidogol, fel nad yw'r sawl y gwneir cwyn amdano na'i reolwr llinell yn ymateb i bryderon ynglŷn â gwrthdaro buddiannau (neu ymddygiad swyddog).**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'n gyhoeddus sut yr ymdrinnir â gohebiaeth gan Aelodau Cynulliad, yn enwedig os yw Aelod Cynulliad wedi ysgrifennu gohebiaeth dro ar ôl tro am fater neilltuol.**

179. Hefyd, dywedodd Ieuan Wyn Jones AC nad oedd yn ymwybodol o'r pryderon yr oedd Karen Sinclair wedi'u mynegi'n flaenorol i Andrew Davies. Eglurodd mai'r rheswm am hyn yw "na chaiff Gweinidog weld papurau a gyflwynwyd i Weinidog blaenorol."[140]

180. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig wedi hynny, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol newydd na chaiff Gweinidogion weld papurau a ddarparwyd yn flaenorol i Weinidog o blaid wleidyddol wahanol, hyd yn oed os ydynt mewn Llywodraeth glymblaid ar y pryd. Manylodd:

> "It is a long established UK Government convention that Ministers of the current Administration may not generally see documents of a former Administration of a different political party. The convention exists in order to provide a degree of privacy to previous Ministers. The convention also applies with the Welsh Government, but with modification so as to take account of the existence from time to time of coalition governments here... This means that the convention is applied when Ministers change and a new Minister is of a different political party to their predecessor."[141]

181. Dywed ei ohebiaeth, tra na chaiff Gweinidogion weld dogfennau o'r fath:

> "We recognise that there is a need to reconcile the general principle of withholding access to previous Ministerial documents with practical considerations including, where appropriate, facilitating the continuity of policy. So where it is necessary to advise Ministers about work undertaken or decisions made by previous Ministers from a different political

[140] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 181
[141] Derek Jones, CB, Ysgrifennydd Parhaol, 6 Rhagfyr 2012

> party… it is appropriate for civil servants to brief Ministers by providing them with a summary of what was at issue, and the action taken, without giving them access to the actual papers."[142]

182. Yn anffodus, mae'r dystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu'n gryf nad yw briffio o'r fath yn digwydd mor effeithiol ag y dylai. Credwn fod effaith gyfun trosiant staff uchel, wedi'i chyfuno â'r ffaith nad yw Gweinidogion yn cael gweld papurau eu rhagflaenwyr, ac – o'r sylwadau a wnaed gan Ieuan Wyn Jones AC – y trefniadau trosglwyddo sy'n gallu bod yn gyfyngedig, yn mynd i wanhau cof corfforaethol cyfun Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r sail resymegol wrth wraidd y confensiwn gwreiddiol, ond rydym yn bryderus iawn y gallai hyn fod yn niweidiol yn nhirwedd wleidyddol Cymru lle gallai'r blaid wleidyddol sy'n dal swydd Gweinidog neilltuol newid dro ar ôl tro.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i chonfensiwn, i alluogi Gweinidogion i gael gweld papurau a ystyriwyd gan eu rhagflaenwyr.**

**Rydym yn argymell bod gweision sifil Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Gweinidogion yn cael eu briffio'n llawn wrth iddynt ddod i'w swydd ar bob agwedd o'u portffolio newydd, yn cynnwys gohebiaeth sydd ar y gweill a gohebiaeth nad yw wedi'i chwblhau. Rydym o'r farn y dylai hyn gynnwys ceisio adborth gan Weinidogion am effeithiolrwydd briffio o'r fath.**

### Cyfathrebu â Swyddfa Archwilio Cymru

183. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi:

> "Tynnwyd sylw Swyddfa Archwilio Cymru gyntaf at bryderon ynghylch y broses o gaffael River Lodge a'r cynigion ar gyfer ei ddefnyddio ym mis Ionawr 2010 gan gyn Aelod Cynulliad, a oedd wedi cyflwyno ei phryderon i Weinidogion sawl gwaith ond nad oedd wedi bod yn fodlon ar y wybodaeth a gafodd mewn ymateb i hynny. Wrth ystyried y pryderon hyn, daeth Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o Adolygiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru, a oedd yn mynd rhagddo ar y pryd, a chadwodd 'friff gwylio' ar yr Adolygiad

[142] Derek Jones, CB, Ysgrifennydd Parhaol, 6 Rhagfyr 2012

Cydymffurfiaeth, yr Adolygiad Archwilio Mewnol a gynhaliwyd wedi hynny ac ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adolygiadau."[143]

184. Yn ystod ein hymchwiliad, mynegodd Amanda Brewer bryder ynglŷn â gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn ei barn hi yn codi pryderon ynglŷn â didueddrwydd ac annibyniaeth Swyddfa Archwilio Cymru."[144]

185. Yn arbennig, darparodd ohebiaeth gan aelod o Swyddfa Archwilio Cymru at Karen Sinclair ym mis Awst 2010, a ddywedai:

> "I have just received confirmation from the Head of Corporate Governance in WAG that he has received the report from the internal investigation. I have arranged to meet him tomorrow afternoon so that he can pass the report over to me and have initial discussions on the findings."[145]

186. Gofynasom i Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn dymuno gwneud sylwadau am yr ohebiaeth hon. Cadarnhaodd mai'r ymchwiliad mewnol (ym mis Awst 2010) y cyfeirid ato oedd ymchwiliad disgyblu mewnol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, amlinellodd fod y diweddariadau a ddarparwyd i Karen Sinclair am yr ymchwiliad mewnol hwn wedi'u cyfyngu i:

> "informing her only about the progress of the reviews, to assure her that her concerns were being addressed by the Welsh Government. It did not extend to providing her with copies of, or any detail about, the content of those reviews."[146]

187. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd mai ei rôl hi ar yr adeg hon oedd un o gynnal:

> "watching brief on developments (as referred to in paragraph 14 of the WAO report). During the period in question… [the Wales Audit Office] maintained regular contact with… the Head

---

[143] Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen
Para 14

[144] Amanda Brewer, River Lodge, Llangollen, Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 14 Ionawr 2013.

[145] Gohebiaeth a ddarparwyd gan Karen Sinclair ac Amanda Brewer, o dan y teitl 'Update', wedi'i dyddio 26 Awst 2010.

[146] Swyddfa Archwilio Cymru, Ymateb i bryderon a godwyd gan Amanda Brewer.

of the Welsh Government's Corporate Governance and Assurance Division… which was, and still is, a key part of progressing any concerns that arise during the audit cycle. When the Welsh Government produced reports from their various reviews, they were shared with the WAO to demonstrate that the issues raised by the correspondent were being progressed. At that stage our role was to ensure that the concerns raised by Karen Sinclair were being dealt with by the Welsh Government, and that we did not need to undertake any additional work. At no stage did the WAO share the results of these reports with Karen Sinclair; neither did the WAO have any input into the reports themselves."[147]

188. Pwysleisiodd Swyddfa Archwilio Cymru:

> "at no time during the period when the WAO was maintaining a watching brief on matters relating to the River lodge (January 2010 to October 2011) or subsequently, as part of our audit examination of the River Lodge, has the WAO engaged in any discussions, or engaged in any other action, that could be construed as having an influence on disciplinary investigations or related proceedings. Apart from knowing of their existence and their outcomes… we have no knowledge of the investigatory/disciplinary proceedings against individual members of staff, which were outside the remit of our own audit examination."[148]

[147] Swyddfa Archwilio Cymru, Ymateb i bryderon a godwyd gan Amanda Brewer.
[148] Swyddfa Archwilio Cymru, Ymateb i bryderon a godwyd gan Amanda Brewer.

# 7. Yr arfarniad opsiynau a safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â Gwesty River Lodge

189. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi i'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd dderbyn argymhelliad yr Archwilwyr Mewnol y dylid cynnal arfarniad opsiynau. Ym mis Ebrill 2010 comisiynodd Gyfarwyddwr Cyffredinol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth i ymgymryd â'r gwaith.[149] Roedd adroddiad yr arfarniad opsiynau ym mis Hydref 2010 yn ei gwneud yn glir mai dim ond i ddarparu sail ar gyfer nodi opsiynau dichonadwy y paratowyd yr adroddiad, i ddangos i ba raddau yr oeddent yn gyson ag amcanion newydd Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r economi. Nid oedd yn cynnwys asesiad o gostau a buddion opsiynau amgen, ond dywedai fod angen dadansoddiad manylach, yn cynnwys arfarniadau buddsoddi, er mwyn penderfynu ar yr opsiynau dichonadwy mwyaf priodol.[150]

190. Nid oedd yr arfarniad opsiynau'n gwneud argymhellion penodol o ran opsiwn a gâi ei ffafrio, ac roedd yn ei gwneud yn glir fod angen gwaith ychwanegol cyn y gallai Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad.

191. Fodd bynnag, deuai i'r casgliad, os nad oedd angen y safle at ddibenion adfywio strategol, y dylai gael ei drin fel safle dros ben a'i waredu yn unol â gofynion *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd*. O dan amgylchiadau felly, yr opsiynau a oedd ar gael oedd cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr a oedd wedi mynegi diddordeb yn y safle yn flaenorol, i asesu a oes galw am unrhyw ddefnydd cyhoeddus arall o'r tir hwn, neu ei waredu ar y farchnad agored.[151]

192. Rydym o'r farn ei bod yn ddoeth cynnal arfarniad opsiynau yng nghyswllt gwaredu'r eiddo. Yn wir, credwn y dylai hynny fod wedi cael ei wneud fel rhan integredig o'r drefn benderfynu yn 2007 a 2009.

---

[149] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.6
[150] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.10 i 4.12
[151] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 4.13

193. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig nad oedd yr arfarniad opsiynau'n cynnwys asesiad o gostau a buddion gwahanol opsiynau, ac yn sgil hynny a oeddent yn cynrychioli gwerth am arian. Cytunwn â sylwadau Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth presennol Llywodraeth Cymru pan ddywedodd hyn:

> "the question that should have been asked, more than whether it fitted with the policy of the day, was whether it represented value for money."[152]

194. Rydym yn cydnabod nad oes rhaid asesu goblygiadau cost opsiynau bob amser, ac y gall gweision sifil weithiau wrthod opsiynau yn gyfan gwbl ar y sail na fyddant yn amlwg yn cynrychioli gwerth am arian, y byddant yn groes i'r gyfraith, ac ati. Rydym yn cydnabod hefyd fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng ystyried goblygiadau polisi opsiynau a'u gwerth am arian. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yma na roddwyd unrhyw ystyriaeth i werth am arian.

195. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth presennol Llywodraeth Cymru:

> "Ironically, not declaring it surplus would have allowed it to be dealt with far more quickly, because we could have just sold it. It is only when you declare it to be surplus that you cannot sell it."[153]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'n gyhoeddus y broses yr eir drwyddi i ddatgan bod ased yn un dros ben.**

### Diffyg arfarniad opsiynau blaenorol

196. Un o'n pryderon ehangach, yn deillio o'r ymchwiliad hwn, yw'r diffyg ailasesu ac arfarnu opsiynau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru rhwng 2007 a 2010. Ein dehongliad ni o'r dystiolaeth a ddeilliodd o'r ymchwilad hwn yw bod i'r prosiect, unwaith yr oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei bod yn bwriadu prynu Gwesty River Lodge, a'i brydlesu i Powys Fadog, fomentwm a oedd yn golygu bod pryderon ynglŷn â'i hyfywedd yn cael eu gweld fel rhwystrau i'w goresgyn, yn hytrach na chyfleoedd i ailasesu'r rhagdybiaethau

[152] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 188. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn feirniadol o'r diffyg arfarniad opsiynau wedi'i gostio'n llawn (para 18).
[153] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 194

sylfaenol y seiliwyd y prosiect arnynt. Cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd mewn tystiolaeth lafar inni:

> "At no point did people stop to say, 'Hang on; we have looked at due diligence, but we need to check the options, so let's reassess… people got into group-think mode. They decided that they wanted to do something really important for renewal in Llangollen, and they had a vision of what it was going to be, and that vision drove across putting the appropriate due diligence checks in place… What happened here was that nobody stopped to think and look at it.'"[154]

197. Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru mai un wers allweddol o Brosiect Gwesty River Lodge oedd hyn:

> "sometimes, you just need to stop. When something is really worrying you, you need to say 'Hold on here, let's all just stop and take another calm look at this to see which way we are going.' That is not always easy to do, because these things tend to gather momentum, but that is one of the key lessons, to stop."[155]

198. Rydym yn llym ein beirniadaeth o Lywodraeth Cymru am y methiant i gynnal arfarniadau opsiynau gwerth am arian cadarn cyn prynu Gwesty River Lodge yn 2007 a thro ar ôl tro wedi hynny.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i systemau er mwyn galluogi unrhyw ddatblygiad prosiect neu bolisi tymor hir i gynnwys cyfleoedd ar gyfer arfarniadau opsiynau (i ystyried gwerth am arian), adolygiadau gan gymheiriaid ac ailasesu.**

**Dyfodol Gwesty River Lodge**

199. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod River Lodge wedi dadfeilio ers i Lywodraeth Cymru ei brynu. Diffoddwyd y gwres canolog, a arweiniodd at beipiau'n byrstio a difrod dŵr. Wrth i'r eiddo ddirywio roedd yn denu fandaliaid, a thorrwyd i mewn iddo nifer o

---

[154] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 7, 38 a 121
[155] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 17

weithiau. Mae'r amcangyfrif o'r costau atgyweirio ac adnewyddu yn sylweddol erbyn hyn a gallai fod yn fwy nag £1 miliwn.[156]

200. Nodai'r adroddiad fod River Lodge yn dal ym mherchenogaeth Llywodraeth Cymru, fwy na 18 mis ar ôl i'r arfarniad opsiynau gael ei gynnal, a bron i 12 mis ar ôl i'r Cytundeb Prydlesu ddod i ben. Yn y cyfamser, roedd Llywodraeth Cymru yn dal i wynebu costau am mai hi yw'r perchennog, ac nid oedd wedi cael unrhyw enillion ar ei buddsoddiad sylweddol yn y tir a'r eiddo. Er bod newidiadau ym mholisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wedi helpu i nodi'r opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, dywedai'r adroddiad fod angen gweithredu ar fyrder i ganfod defnydd i'r eiddo neu i'w waredu.[157]

201. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth presennol Llywodraeth Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwaredu'r eiddo. Dywedodd:

> "we have entered into an options agreement with the local health board to buy the site. It is not as good a news story as I would have liked to have told you, because the health board is viewed as part of the Welsh Government, in a way... Through the options agreement, we have to sell the health board the site for £500,000 with the building on it, or for £600,000 with the building demolished—it will, most likely, be demolished anyway. Therefore, it is at no cost to the organisation. It has to exercise it by September 2013… I say that I am less happy because if we were going to bill the health board if it did not do it, it would be incentivised to complete. As it is, it is not incentivised to complete. If it does not purchase by that time, we will simply sell the site on the open market."[158]

202. Nodwn y cynnydd cyfyngedig sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru o ran gwaredu'r eiddo.

---

[156] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Crynodeb, Para 10
[157] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Crynodeb, Para 4.15
[158] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 222

# 8. Newidiadau llywodraethu sydd wedi digwydd ers prynu River Lodge a llofnodi'r Cytundeb Prydlesu

203. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod gwersi pwysig i Lywodraeth Cymru eu dysgu o'r achos hwn, ac mae'n nodi bod nifer o newidiadau llywodraethu wedi digwydd ers y digwyddiadau hyn.

**Trefniadau Llywodraethu**

204. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi ceisio diwygio'i threfniadau llywodraethu a'i phrosesau rheoli. Dywed fod llywodraethu da yn cael ei weld bellach fel rhan annatod o fusnes beunyddiol Llywodraeth Cymru.[159] Deallwn i'r newidiadau hyn gael eu gwneud gyda'r bwriad o wneud trefniadau penderfynu Llywodraeth Cymru yn fwy cadarn, a lleihau'r risg y bydd penderfyniadau gwael – fel y rhai a wnaed yng nghyswllt River Lodge – yn cael eu gwneud yn y dyfodol.

205. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ei fod, ar ôl prosiect Gwesty River Lodge, wedi sicrhau bod unrhyw brynu a gwerthu eiddo yn cael ei adolygu gan gymheiriaid. Dywedodd:

> "The one satisfaction that I got from it was that there was no issue regarding any other property transaction in the Welsh Government, which amounted to many millions of pounds. It was good to hear from the evidence that the Permanent Secretary and James Price [the current Welsh Government Director General of Business, Enterprise, Technology and Science] gave you that that process is now embedded in the systems and processes of the Department for Business, Enterprise, Technology and Science. My conclusion on that one is that it was not a systemic issue, but there was an issue about the conflict of interest and how line management within their delegations did not follow the set down and well-established rules and procedures."[160]

[159] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, para 5.3 i 5.5
[160] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 402

206. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, dywedodd Amanda Brewer fod pryniant gwreiddiol Gwesty River Lodge hefyd wedi cael ei adolygu gan gymheiriaid. Dywedodd fod yr Adran Gyllid wedi gwirio ei hargymhelliad o safbwynt diwydrwydd dyladwy ariannol, a bod adolygiad cymheiriaid wedi cael ei gynnal o'r argymhelliad gan dîm rheoli'r is-adran tir. Dywedodd:

> "The project manager who initiated the project put the proposal online. It then went to the finance department for financial due diligence; it just checked that it was in the business plan. It fitted with the compliance there. That might not have been a senior official, but it was another official from a different department within the organisation. It then went to my line manager, who recommended it. From my line manager, it went to the head of finance and compliance, who then looked at the financial compliance of the transaction. Finally, it went to the regional director, who had the delegated authority to approve the transaction."[161]

207. Fodd bynnag, nodwn fod tîm rheoli'r is-adran tir yn golygu cadwyn rheolaeth linell Amanda Brewer ei hun. Mewn cyferbyniad, tanlinellodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth presennol Llywodraeth Cymru fod unrhyw brynu a gwerthu eiddo yn cael ei adolygu erbyn hyn gan y tîm Arweinyddiaeth Eiddo yn yr adran Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth (h.y. y tu allan i'r union dîm sy'n ymwneud â'r prynu neu'r gwerthu), a bod pob pryniant yn mynd at y Gweinidog i gael ei gymeradwyo (ac eithrio rhai pwerau dirprwyedig o natur gyffredin iawn). [162]

208. Croesawn y rôl a chwaraeir gan y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo yn yr adran Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth yn cynnal adolygiadau cymheiriaid o benderfyniadau prynu. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn ehangach yn ystyried a all hithau hefyd ddysgu o wersi ehangach prosiect Gwesty River Lodge.

**Rydym yn argymell bod adrannau Llywodraeth Cymru yn adolygu'u systemau i alluogi cynnal adolygiadau effeithiol gan gymheiriaid**

---

[161] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 211
[162] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 110-112

**o'r holl drefniadau prynu perthnasol, gan ystyried y system yn yr adran Busnes, Menter, Trafnidiaeth a Gwyddoniaeth,**

209. Croesawn hefyd y pwyslais a roddwyd ar i Lywodraeth Cymru nid yn unig ystyried cryfhau ei rheolau ynglŷn â llywodraethu, ond hefyd ddatblygu hyfforddiant i egluro 'ysbryd' rheolau o'r fath. Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Llywodraeth Cymru:

> "another lesson coming out of this very clearly is the need to keep emphasising basic values. It is not just about rules, but about values and principles. The two principles that scream out at you from the River Lodge report are value for money and propriety. So, alongside the rules, you just have to keep emphasising the standards and values that underpin them."[163]

**Newid diwylliannol**

210. Dywed adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fod diwylliant y WDA yn wahanol iawn i ddiwylliant Llywodraeth Cymru heddiw. Parhaodd llawer o draddodiad, arferion a phrosesau busnes y WDA i bob pwrpas am beth amser ar ôl iddo gael ei integreiddio i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006. Bu'r trosglwyddo yn anodd i lawer o gyn swyddogion y WDA a symudodd drosodd yn dilyn yr uno yn 2006.[164]

211. Cytunai amryw o'n tystion â'r asesiad hwn. Roedd amryw o dystion hefyd o'r farn fod gan yr Asiantaeth Datblygu Tir ei diwylliant unigryw ei hun, hyd yn oed pan oedd yn rhan o'r WDA.

212. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd:

> "people did not recognise for some time that the standards and beliefs and the way that things worked in the old Welsh Development Agency, which was much more entrepreneurial in some ways, differed very much from what was needed within a governmental organisation. I think that people did not recognise in the transition for some time that those are two very different roles and that your use of public money in a Government has to be bound in much stricter ways."[165]

---

[163] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 16
[164] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 5.2
[165] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 6.

213. Gofynasom i'r Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd a oedd y diffyg cydnabyddiaeth hwn yn adlewyrchu diffyg strategaeth ar ran Llywodraeth Cymru wrth reoli'r sefyllfa lle'r oedd staff y WDA yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ei hymateb oedd:

> "Most organisations talk about it being about a three-year journey from the time of a merger to beginning to put the cultures together to create a new environment. It is not a quick fix. You do not move from here to there and then suddenly become imbued with the values of the new organisation. You of course bring things with you. That takes around three years."[166]

214. Gofynasom i Amanda Brewer pa arweiniad a hyfforddiant oedd wedi cael ei drefnu i staff a oedd yn trosglwyddo i ddiwylliant Llywodraeth Cymru. Dyma oedd ei hymateb:

> "none whatsoever. The only thing that we were told was that it was going to be a merger, and that the reason for this merger was because the Welsh Assembly Government wanted to become a little bit more like the WDA. As it turned out, it was completely the opposite. To be honest, anything that was good about the WDA seems to have been taken away... The WDA was subsumed; there is no question about that. We became part of the Welsh Assembly Government, but we were not told what we were supposed to do. The Permanent Secretary is absolutely right, it took a good number of years and quite possibly there were still issues when I left. We still had not had proper property guidance, for instance, before I left."[167]

215. Gofynasom i Amanda Brewer sut y gallai'r trosglwyddo fod wedi cael ei reoli'n fwy effeithiol. Ymatebodd fel hyn:

> "It would have helped if more thought had been given to how the transition was going to take place. I do not know, maybe it was better in Cardiff, but in north Wales we are a little bit out on a limb and, perhaps, the guidance did not get to us as quickly as it should have done, if there ever was any guidance. There should have been a lot of preparation and a lot more

[166] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 9
[167] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 253 a 254

thought should have been given to the people on the ground trying to work."[168]

216. Nid oedd cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn cytuno na fu unrhyw baratoi ar gyfer yr uno, gan ddweud ei fod ef yn bersonol wedi ymgymryd â chyfres o sioeau teithiol dros 18 mis. Dywedodd:

> "There was considerable communication about what was expected, the accountability to Ministers and what this meant. I went on a series of continuous roadshows with my senior management team over that 18-month period and following the merger process to explain what the new organisation would be about and how things would operate to engender, as has been described, that shift in culture."[169]

217. Fodd bynnag, dywedodd cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth hefyd mai'r neges allweddol yn y sioeau teithiol i bobl fel Amanda Brewer oedd mai'r nod oedd:

> "business as usual. We were very explicit in saying that as part of business as usual—policies, procedures and delegations, which were in place at the WDA—it was a wholesale shift across; there was no change."[170]

218. Rydym yn cydnabod awydd posibl i sicrhau na fyddai busnes arferol yn wynebu oedi anfwriadol, neu'n cael ei atal, oherwydd uno a oedd ar fin digwydd. Fodd bynnag, rydym yn hynod feirniadol o ddefnyddio 'busnes fel arfer' fel neges allweddol wrth baratoi staff i drosglwyddo i sefydliad newydd. Credwn y byddai hyn wedi creu neges gymysg iawn pa un a oedd y trosglwyddo yn golygu newid mewn diwylliant ac arferion gweithredu ai peidio. Credwn fod 'busnes fel arfer' fel neges allweddol yn awgrymu diffyg strategaeth o bosibl wrth wraidd uno'r WDA â Llywodraeth Cymru. Yn wir, nid yw'n glir fod uwch reolwyr wedi mynd ati i rannu gwybodaeth fanwl cyn datgan mai 'busnes fel arfer' oedd y nod, ac nad oeddent felly o reidrwydd yn gwybod beth yr oedd 'busnes fel arfer' yn ei olygu mewn gwirionedd.

---

[168] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 256
[169] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 324
[170] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 330

219. Dywedodd cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth hyn hefyd am weledigaeth y Gweinidogion i'r sefydliad newydd:

> "there were concerns that the new organisation should not become Cardiff centric, so Ministers wanted to have strong regional offices in north, mid, south and west Wales."[171]

220. Fodd bynnag, anghytunai Andrew Davies (yn siarad fel y Gweinidog blaenorol dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau) â hyn, gan ddweud:

> "I was not keen on having strong regions, because what you were finding was that you had regional tourism partnerships, regional economic fora, as well as strong regions within the department, and part of the problem was that there was a lack of co-ordination and central direction... looking at the structures, there was a regional structure, but it was certainly not the case that I wanted strong regions in the sense that I think he was talking about."[172]

221. Nid yw'n ymddangos bod gweledigaeth Andrew Davies o ran strwythur y sefydliad cyfun newydd wedi cael ei rhoi ar waith. Rydym yn siomedig i ganfod hyn, gan ei bod yn hanfodol fod gweision sifil yn ceisio gwireddu gweledigaeth a syniadau Gweinidogion.

222. Nid ydym yn feirniadol o ddatblygu strwythurau rhanbarthol ynddo'i hun, gan ein bod yn cydnabod y gallai fod iddynt gryfderau a manteision. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi datgan eisoes yn yr adroddiad hwn, rydym yn hynod feirniadol o'r ffordd y cafodd y canolfannau rhanbarthol hyn eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, gyda chyd-drefnu gwan yn ôl pob golwg ar draws Cymru gyfan.

**Rydym yn argymell, os bydd Llywodraeth Cymru yn uno â chorff arall yn y dyfodol, ei bod yn pennu pwrpas clir, ar sail tystiolaeth gadarn, i'r uno, ac y ceir law yn llaw â hynny gyfathrebu a chyfarwyddyd cyson i'r staff yn ystod y cyfnod o newid, a bod hynny'n unol â datganiadau cyhoeddus Gweinidogion.**

[171] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 8 Hydref 2012, Para 323
[172] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 250

# 9. Gwybodaeth friffio i Weinidogion

## Gwybodaeth friffio i Weinidogion mewn perthynas â Gwesty River Lodge

223. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn codi pryderon penodol ynglŷn â chywirdeb y wybodaeth friffio a ddarparwyd i Weinidogion Cymru gan swyddogion a oedd yn ymdrin â'r broses o brynu River Lodge.[173]

224. Adleisiwyd y pryderon hyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar y pryd, a bwysleisiodd nad oedd unrhyw fai o gwbl ar Weinidogion ym mhrosiect Gwesty River Lodge, ac nad oedd gweision sifil wedi rhoi i'r Gweinidogion y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt. Dywedodd:

> "I do not believe that Ministers, at any time, either supported or did not support this; Ministers are completely blameless in this. This is about the failing of the civil service machine to give Ministers the information they need. Therefore, I do not believe that Ministers were either in favour or not in favour—they were taking the advice that they were given, and it is our advice that was biased and not appropriate for Ministers to rely on. Therefore, I believe that Ministers are quite blameless in all this… Ministers have the right to assume that the civil service shows a number of things: integrity, honesty, objectivity and impartiality."[174]

225. Mynegodd y ddau Weinidog blaenorol y siaradasom ni â nhw bryderon am ansawdd a chywirdeb y wybodaeth friffio a ddarparwyd iddynt mewn perthynas â phrosiect Gwesty River Lodge. Nododd Andrew Davies fod nodyn briffio iddo am brynu Gwesty River Lodge yn dweud yn bendant na fu:

– unrhyw wrthdaro buddiannau; a

[173] Swyddfa Archwilio Cymru, Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen, Para 1.22 i 1.24
[174] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 148 ac 156

- bod prisiad y prisiwr dosbarth wedi bod yn brisiad llyfr coch a oedd wedi'i gymeradwyo, er y canfuwyd yn ddiweddarach nad oedd hynny'n gywir.[175]

226. Nodwn fod diffygion yn ansawdd y wybodaeth friffio i Weinidogion yn adlewyrchu'n wael ar y system paratoi papurau briffio yn ei chyfanrwydd. Fel y dywedodd un o'n Haelodau, gwnaed datganiadau anghywir, ond ni sylwodd yr uwch reolwyr ar hynny.[176]

227. Rydym yn feirniadol iawn o system a arweiniodd at ddarparu gwybodaeth friffio anghywir i Weinidogion.

228. Nododd Ieuan Wyn Jones AC hefyd mai dim ond ar ôl y penderfyniad i brydlesu'r gwesty i Powys Fadog y cafodd ef ei friffio, a dywedodd fod ei "ddwylo wedi'u clymu"[177] gan y ffaith ei fod yn teimlo na allai ddad-wneud penderfyniad a oedd eisoes wedi cael ei wneud. Nododd Ieuan Wyn Jones AC hefyd fod pob papur briffio a gafodd ynglŷn â phrosiect Gwesty River Lodge wedi'i farcio MB (*Ministerial Briefing*) yn hytrach nag SF (*Submission Folder*). Golygai hyn mai'r unig ddogfennau ynglŷn â Gwesty River Lodge a anfonwyd at Weinidogion oedd rhai er gwybodaeth yn unig. O ystyried y goblygiadau fod MB o bosibl yn 'clymu dwylo Gweinidog', roeddem yn bryderus fod angen sail resymegol glir i ddweud pam mae rhai papurau briffio yn cael eu darparu fel MB ac eraill fel SF. Rydym o'r farn fod angen eglurder ar hyn, oherwydd gallai penderfyniadau allweddol gael eu gwneud gan swyddogion cymharol isel eu statws. Mae'n dyngedfennol fod yna system glir sy'n galluogi swyddogion i fod yn atebol am benderfyniadau o'r fath, a hefyd yn atebol am ansawdd y wybodaeth friffio.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n gyhoeddus beth yw'r sail resymegol drosfwaol er pennu a yw papurau briffio yn Wybodaeth i Weinidogion (MB) ynteu'n Ffolderi Cyflwyno (SF).**

## Materion ehangach ynglŷn ag ansawdd gwybodaeth i Weinidogion

229. Awgrymodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod ansawdd y Wybodaeth i Weinidogion ym mhrosiect Gwesty River Lodge:

[175] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd, Para 236. Gwnaed y pwynt hwn hefyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, para 1.24
[176] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 80
[177] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 206

"in a league of its own [in a negative sense] for the information and the way that that information was presented. I have never seen anything written that way."[178]

230. Fodd bynnag, roedd Ieuan Wyn Jones AC ac Andrew Davies ill dau yn feirniadol o ansawdd a chywirdeb Gwybodaeth i Weinidogion yn gyffredinol, y tu hwnt i'r papurau penodol yn gysylltiedig â phrosiect Gwesty River Lodge. Dywedodd Ieuan Wyn Jones AC:

> "Roedd nifer ohonynt yn berffaith glir, gan ddweud wrthych, 'Dyma'r penderfyniad yr ydym yn awgrymu eich bod yn ei gymryd neu rydym ni wedi ei gymryd, a dyma'r rhesymau pam' ac yn dod i gasgliad. Rhaid cyfaddef bod *briefings* weithiau yn amwys, yn aneglur ac yn cynnwys arweiniad aneglur. Felly, a bod yn onest, roeddwn yn gyrru'r rheini yn ôl os oedd yn rhaid i mi wneud penderfyniad. Pan fyddai'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud, roedd yn anodd achos roedd y penderfyniad wedi'i ddirprwyo."[179]

231. Yn yr un modd, dywedodd Andrew Davies:

> "The quality varied considerably. There were those officials whom you knew if you had a briefing and recommendations from them, you could put money on it. There were others whose punctuation you checked because the quality was not good and the advice was not sound... I found as Minister that as you become more knowledgeable and more experienced, not just are you aware of those differences in personal qualities, but you understand issues far more deeply."[180]

232. Nododd Cyfarwyddwr Cyffredinol Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth presennol Llywodraeth Cymru fod Uned Fusnes y Llywodraeth wedi cael ei sefydlu ers prosiect Gwesty River Lodge. Diben yr uned hon yw gwirio:

> "that things have a policy rationale, that gobbledygook is not being written down, and that things are consistent and coherent across a time period."[181]

---

[178] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 10 Gorffennaf 2012, Para 35
[179] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 173
[180] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 19 Tachwedd 2012, Para 287
[181] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 23 Hydref 2012, Para 152

233. Rydym yn croesawu datblygu Uned Fusnes y Llywodraeth a'i rôl, ond credwn fod angen adolygu ei heffeithiolrwydd yn barhaus.

234. Rydym yn bryderus iawn fod ansawdd y Wybodaeth i Weinidogion wedi cael ei beirniadu yn y dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn a hefyd yn yr ymchwiliad sy'n parhau i Reoli Grantiau. Mae'n hanfodol fod Gweinidogion yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth gywir. Un rôl dyngedfennol sydd gan weision sifil yw dweud y gwir wrth y rhai sydd mewn grym, fel bod Gweinidogion yn gwybod am bethau nad ydynt yn mynd yn dda, neu ddweud wrth Weinidogion nad yw syniad yn ddichonadwy. Mae'n hanfodol fod gwybodaeth friffio i Weinidogion o'r ansawdd uchaf bosibl.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu pa mor effeithiol yw Uned Fusnes y Llywodraeth yn gwella ansawdd a chywirdeb papurau briffio drwy gynnal arolygon o farn Gweinidogion a chyflwyno adolygiadau rhyngadrannol gan gymheiriaid.**

## Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar drwy dudalennau'r Pwyllgor ar y we: http://abms/cy/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=230

*19 Tachwedd 2012*

| | |
|---|---|
| David Richards | Llywodraeth Cymru |
| Arwel Thomas | Llywodraeth Cymru |
| Karen Sinclair | Cyn-Aelod Cynulliad |
| Ieuan Wyn Jones AC | Y Cyn-Ddirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Andrew Davies AC | Y Cyn-Weinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau |

*23 Hydref 2012*

| | |
|---|---|
| James Price | Llywodraeth Cymru |
| Jeff Collins | Llywodraeth Cymru |

*8 Hydref 2012*

| | |
|---|---|
| Pol Wong | Powys Fadog |
| Gareth Hall | Cyn-Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth |
| Amanda Brewer | Cyn-Swyddog Llywodraeth Cymru ac aelod o Powys Fadog |

*10 Gorffennaf 2012*

| | |
|---|---|
| Y Fonesig Gillian Morgan | Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| James Price | Llywodraeth Cymru |
| Arwel Thomas | Llywodraeth Cymru |

## Tystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd amrywiaeth o unigolion a sefydliadau dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl dystiolaeth.

Ystyriwyd cyhoeddi yr holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, ond am resymau cyfreithiol ni chyhoeddwyd rhai ohonynt ac mae rhai wedi'u golygu.

Gellir gweld y dystiolaeth ysgrifenedig yn:
http://abms/cy/ieListDocuments.aspx?CId=230&MId=1099&Ver=4